Estyn


estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig cenedlaethol

2020/2021








**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2021:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Rhagair** | **1** |
| **Safon Uwch Cymraeg** | **3** |
| **Gwydnwch dysgwyr** | **6** |
| **Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol** | **8** |
| **Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID–19** | **12** |
| **Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch** | **15** |
| **Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant** | **19** |
| **Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid** | **22** |
| **Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig** | **26** |
| **Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19** | **31** |
| **Partneriaethau ôl-16** | **36** |
| **Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd** | **39** |
| **Caffael yr iaith Gymraeg** | **44** |
| **Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol – gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19** | **48** |
| **Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr – gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19** | **50** |

# Rhagair


Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n gweld y compendiwm hwn, a'r adroddiadau sy'n sail iddo, yn addysgiadol a pherthnasol. Mae adroddiadau thematig Estyn, a gyhoeddwyd yn 2020 ac yn nhymor y gwanwyn yn 2021, yn cwmpasu ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws ystod o sectorau a themâu addysg a hyfforddiant, ac yn cyfeirio at dystiolaeth a gasglwyd trwy ein hadolygiadau thematig cyn ac yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys ffocws ar wydnwch dysgwyr, dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Mae ein hadroddiadau yn cyflwyno canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar hyfforddiant gwaith ieuenctid a phartneriaethau ôl-16 rhwng ysgolion, a gyda cholegau. Rydym wedi adrodd ar effaith pandemig COVID-19 ar addysg a hyfforddiant mewn ysgolion a darparwyr eraill, gan ganolbwyntio ar yr hyn mae darparwyr wedi ei wneud i gefnogi dysgwyr. Mae ein hadroddiadau ar ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol, a chymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau, yn darparu mewnwelediadau i waith y darparwyr hyn wrth ymateb i'r pandemig. Yn y sectorau ôl-16, rydym wedi canolbwyntio ar waith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned mewn adroddiadau ar ddatblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol, a chymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles dysgwyr.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn mynd i'r afael â materion sydd o bwys creiddiol i lunwyr polisi. Mae'r llythyr cylch gwaith blynyddol at PAEM gan y Gweinidog Addysg yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys cais am adroddiad ar sut mae ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, adroddiad ar ysgolion bro, dau adroddiad ar gaffael iaith, a dau adroddiad pwnc ar Gymraeg a Busnes a phynciau astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch.

Bwriad ein hadroddiadau yw annog meddwl ehangach a chyfrannu at drafodaethau cyfredol mewn meysydd polisi, yn ogystal â rhannu cameos ac astudiaethau achos arfer ddiddorol ar draws pob sector. Mae'r rhaglen nesaf o adroddiadau thematig yn ystod 2021 a 2022 yn argoeli i fod yr un mor berthnasol, gydag adolygiadau ar y gweill ar ystod eang o feysydd fel hanes a diwylliant Cymru, sefydlu ysgolion pob oed, cymorth dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, asesu, dulliau trochi yn y Gymraeg, cwricwlwm 16-18, cyngor ac arweiniad diduedd a ddarperir gan Gyrfa Cymru, ac adolygiadau cyflym o gymwysterau proffesiynol ôl-16, a defnyddio'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a grantiau dal i fyny ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a cholegau.

Rydym yn gobeithio bod yr adroddiadau thematig hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth gan ddarparwyr i wella eu harferion a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mae'r compendiwm hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn 2020 ac ar ddechrau 2021 yn dwyn y prif ganfyddiadau ac argymhellion o bob adroddiad ynghyd, fel y gellir cyfeirio atynt yn hawdd. Mae'r adroddiadau llawn, yn

cynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan, sef:
https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports.



**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Safon Uwch Cymraeg

## Prif ganfyddiadau

1 Yng nghyfnod allweddol 5 ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn, mae balchder ac ymdeimlad y dysgwyr Safon Uwch Cymraeg o goleddu'r ffaith eu bod yn Gymry yn nodwedd eithriadol. Mae'r dysgwyr hyn, sydd wedi dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch, yn gweld y Gymraeg yn fwy na phwnc. Yn aml, maent yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ysgol a'u cymunedau. Maent hefyd yn gwerthfawrogi'r medrau trosglwyddadwy perthnasol a ddaw o astudio'r pwnc i'w paratoi at y byd gwaith.

2 Mae llawer o ddysgwyr Safon Uwch Cymraeg yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc. Maent yn siarad yn hyderus a rhugl ac mae eu hiaith, ar y cyfan, yn gywir a naturiol. Mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn y pwnc ar sail diffyg meistrolaeth ar gynnwys ac arddull y testunau gosod yn ogystal â diffygion mynegiant ysgrifenedig. Maent yn trafod yn fwy arwynebol a chyffredinol gan fynegi eu syniadau yn llai hyderus mewn iaith llai graenus.

3 Mae gan lawer o ddysgwyr yr hyder angenrheidiol, ynghyd â gafael gadarn ar yr iaith Gymraeg, i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Serch hynny, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau llafar mewn cyd-destunau anffurfiol y tu allan i'r ysgol. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd cyd-destun sosioieithyddol yr ardaloedd neu oherwydd diffyg diddordeb ac awydd dysgwyr i fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gan nad ydynt yn berthnasol neu'n apelio atynt.

4 Dros y ddeng mlynedd diwethaf, mae'r ganran o ymgeiswyr sy'n ennill graddau A*/A yn y pwnc wedi aros yn lled gyson. Mae'r ganran sy'n ennill graddau A*-C hefyd wedi aros yn lled gyson. Er bod nifer y disgyblion sydd yn astudio Safon Uwch Cymraeg wedi disgyn dros y ddeng mlynedd diwethaf, mae'r gostyngiad canrannol yn debyg i'r gostyngiad mewn pynciau eraill. Yn 2018/2019, mae canran y disgyblion Blwyddyn 13 sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf yn debyg i'r ganran yn 2008/2009.

5 Mae'r dysgwyr yn dewis parhau i astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch am nifer o resymau, gan gannwys eu bod wedi mwynhau'r cwrs TGAU, dylanwad athrawon yn yr adran, eu hyder yn y pwnc oherwydd cefndir y cartref, a dylanwad rhieni ac aelodau o'r teulu sydd wedi astudio'r pwnc. Prif resymau dysgwyr cyfnod allweddol 4 dros beidio ag astudio'r cwrs Safon Uwch yw dyheadau gyrfaol a diffyg mwynhad o'r cwrs TGAU Llenyddiaeth, yn benodol y testunau llunyddiaeth.

6 Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 tuag at yr iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion naturiol ddwyieithog, at ei gilydd, yn gadarnhaol. Serch hynny, mae awydd a hyder lleiafrif o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol yn tueddu i bylu yn ystod eu haddysg uwchradd.

7 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r medrau gwerthfawr a ddaw o fod yn

ddysgwyr dwyieithog o ran cyflogadwyedd ac apêl i gyflogwyr. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr mewn ysgolion dwyieithog yn dewis astudio eu cyrsiau trwy Saesneg yng nghyfnod allweddol 5.

8 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysgu Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf o leiaf yn dda ac yn rhagorol mewn lleiafrif ohonynt. Yn yr ysgolion lle mae'r addysgu fwyaf llwyddiannus, mae gan athrawon wybodaeth bynciol aruchel a llwyddant i gyflwyno'r cwrs mewn dull creadigol a gwreiddiol sy'n tanio dychymyg y dysgwyr. Mae'r athrawon hyn yn gosod disgwyliadau uchel i'w dysgwyr ac yn cynllunio gwersi sydd yn saernïo'r dulliau o gyflwyno'r testunau a'r medrau pynciol yn gelfydd.

9 Mewn ychydig o ysgolion, nid oes digon o ffocws ar herio dysgwyr i gyrraedd y graddau uchaf. Yn yr achosion hyn, nid yw'r addysgu'n datblygu digon ar annibyniaeth y dysgwyr i ymdrin â thestunau synoptig na dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mwyaf cymhleth y testunau. Yn gyffredinol, yn yr ysgolion hyn, nid oes digon o sylw yn cael ei roi i argymhellion o brofiadau dysgu proffesiynol i fireinio a datblygu addysgeg er mwyn codi safonau. O ganlyniad, nid yw dysgwyr uwch eu gallu yn arbennig yn cael eu hymestyn fel y dylent.

10 Mae'r rhan fwyaf o athrawon Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn cynnig profiadau cyfoethog a hynod werthfawr i'w dysgwyr Safon Uwch er mwyn sbarduno a magu eu balchder yn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn y mwyafrif o adrannau, gwneir ymdrech gyson i drefnu gweithgareddau ysgogol i ddyfnhau dealltwriaeth a magu pleser y dysgwyr yn y testunau gosod.

11 Mae gan y rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion uwchradd a cholegau yr ymwelwyd â nhw weledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg. Seilir y weledigaeth hon ar gynnig darpariaeth gyfoethog a phrofiadau dysgu effeithiol fel bod pob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posibl wrth ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg. Mae gan yr arweinwyr gorau gynlluniau strategol clir sy'n newid yn flynyddol ar sail arfarniad manwl er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod o fewn eu cyd-destunau. Fodd bynnag, yn y ddeng mlynedd ddiwethaf, nid yw'r ffactorau hyn wedi llwyddo i gynyddu'r gyfran o ddysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg.

12 Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr adrannau'r Gymraeg weledigaeth gadarn i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio'r pwnc Safon Uwch ar sail eu hangerdd a brwdfrydedd at y pwnc. Mae llawer o arweinwyr pwnc yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu mewn dulliau anffurfiol a ffurfiol am y cwrs Safon Uwch drwy drefnu gweithgareddau cyfoethogi gwerthfawr i ddyfnhau ac ehangu profiadau myfyrwyr o'r pwnc. Er hyn, maent yn wynebu heriau cyson i hyrwyddo'r pwnc fel opsiwn Safon Uwch yn sgil ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol sy'n hyrwyddo pynciau eraill, megis pynciau STEM.

13 Mae llawer o arweinwyr canol yn trefnu digwyddiadau marchnata blynyddol er mwyn hyrwyddo'r pwnc fel cwrs astudio Safon Uwch. Mae rhain yn cynnwys siaradwyr gwadd, cyflwyniadau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, anerchiadau gan gyn-ddysgwyr a phamffledi nosweithiau opsiynau lliwgar a dengar. Fodd bynnag, nid oes un adnodd cenedlaethol safonol i hyrwyddo'r pwnc a'r.medrau cyflogadwyedd a ddaw o'i astudio.

14 Mae dulliau monitro'r targedau a bennir yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu) i wella addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn amrywio'n fawr ar draws yr awdurdodau lleol. Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn ysgolion yn ymwybodol o Ddeilliant 5 i gael 'Mwy o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau Cymraeg lefel uwch'.

15 Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn wynebu heriau cynyddol i gryfhau'r cyfrwng addysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a 5. Er mwyn goresgyn yr heriau hyn, mae enghreifftiau llwyddiannus o arweinwyr yn addasu a theilwra eu darpariaeth er mwyn grymuso a chryfhau'r dilyniant ieithyddol cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae targedau meintiol yng nghynlluniau strategol yr ysgolion hyn i gynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a 5.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau addysg bellach:**

A1 Gynllunio'n strategol a marchnata Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf er mwyn cynyddu niferoedd y dysgwyr sy'n dewis y pwnc

A2 Datblygu dulliau effeithiol o gyflwyno'r testunau gosod a synoptig i ddysgwyr mewn dulliau cyfoes a gwreiddiol

A3 Cynllunio'n fwriadus i gynyddu awydd, dygnwch a hyder dysgwyr ysgolion uwchradd i ddefnyddio'r Gymraeg a chydweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo hyn

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 Gynnal rhwydweithiau er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a rhannu'r arferion gorau o ran addysgu Safon Uwch Iaith Gyntaf Cymraeg

A5 Olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a 5 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Ddarparu adnodd marchnata cenedlaethol i hyrwyddo Safon Uwch CymraegIaith Gyntaf a medrau cyflogadwyedd y pwnc

A7 Cydweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod cymwysterau TGAU Cymraeg newydd i gefnogi'r cwricwlwm arfaethedig yn cynnig testunau mwy cyfredol a pherthnasol i ddysgwyr

# Gwydnwch dysgwyr

## Prif ganfyddiadau

1 Gwydnwch yw'r gallu i ymdopi, dysgu a ffynnu yn wyneb newid, her neu helbulon (Cahill *et al.*, 2014). Mae'n ymwneud yn agos â lles ac iechyd meddwl, ac ni allwn ddatblygu gwydnwch yn hawdd pan fyddwn ni'n anhapus neu'n sâl yn emosiynol. Hefyd, mae angen rhywfaint o hunan-barch a hyder, dealltwriaeth emosiynol, a'r gallu i sefydlu perthnasoedd ymddiriedus, ac elwa ar gymorth.

2 Ysgolion sy'n dda yn meithrin gwydnwch eu dysgwyr yw'r rhai sy'n hyrwyddo lles emosiynol ac yn cefnogi iechyd meddwl eu holl ddysgwyr. Yn ogystal â chael dull ysgol gyfan ar gyfer lles[1], mae'r ysgolion hyn hefyd yn darparu ymyriadau penodol ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth yn benodol. Mewn llawer o achosion, caiff dulliau ysgol gyfan newydd eu mabwysiadu yn dilyn rhoi strategaeth benodol ar waith yn llwyddiannus ar raddfa lai.

3 Mae deilliannau arolygu ar gyfer darparwyr a arolygwyd o dan y fframwaith arolygu cyffredin newydd (2017-2019) yn awgrymu bod arfer gref mewn ysgolion o ran cefnogi lles disgyblion. Mae safon y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, ac mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd.

4 Mewn ysgolion sy'n llwyddiannus yn meithrin gwydnwch disgyblion, mae arweinwyr sydd wedi datblygu gweledigaeth gref, wedi'i chefnogi gan werthoedd craidd ynglŷn â hyrwyddo lles yr holl ddisgyblion. Rhennir y weledigaeth gan holl randdeiliaid yr ysgolion. Maent yn darparu ymyriadau ar gyfer y disgyblion hynny sydd eu hangen, yn ogystal â gweithredu strategaethau llwyddiannus ar gyfer sefyllfaoedd dosbarth cyfan, pan fo'n briodol. Mae'r ysgolion hyn yn rhoi pwyslais cryf ar les eu staff hefyd.

5 Anaml y mae arweinwyr ysgol yn siarad am feithrin gwydnwch fel prif nod neu amcan. Yn aml, caiff gwydnwch ei gryfhau o ganlyniad i roi strategaethau ar waith i dargedu anghenion eraill disgyblion. Mae ysgolion yn cydnabod nad oes ffordd hawdd o feithrin gwydnwch ymhlith disgyblion. Maent yn deall ei bod yn broses y mae angen buddsoddi amser, ynni ac adnoddau sylweddol ynddi.

6 Nodwedd gyffredin bron ym mhob un o'r ysgolion sy'n llwyddiannus o ran meithrin gwydnwch ymhlith disgyblion yw mai ychydig iawn o waharddiadau cyfnod penodol, os o gwbl, sy'n digwydd dros gyfnod hwy. Mae ganddynt ethos cynhwysol cryf. Maent yn ymdrechu i ddeall a mynd at wraidd heriau penodol sy'n wynebu disgyblion, ac yn fodlon rhoi cynnig ar wahanol ddulliau i fynd i'r afael â'r problemau.

7 Mae ysgolion da yn rhannu gwybodaeth rhwng y gweithwyr proffesiynol perthnasol a'r oedolion sy'n ymwneud â disgyblion penodol yn effeithiol ac mewn modd amserol.

[1] Estyn (2019) *Iach a hapus – effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*. Caerdydd: Estyn; Estyn (2020) *Adnabod eich plant – cefnogaeth i ddisgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod*. Caerdydd: Estyn; Estyn (2020) *Cymorth effeithiol yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais a disgyblion sy'n agored i niwed – astudiaethau achos arfer dda*. Caerdydd: Estyn.

Maent yn gwybod y bydd yr ymyrraeth yn fwy effeithiol os gallant nodi a chefnogi disgyblion sy'n cael trafferth â'u hunan-barch a'u gwydnwch yn gynnar. Mae ganddynt brosesau ar gyfer sicrhau bod yr holl oedolion perthnasol yn yr ysgol yn cael gwybod am unrhyw bryderon yn gyflym ac yn gywir.

8 Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn deall bod meithrin gwydnwch yn broses barhaus sy'n dechrau â datblygu perthnasoedd da rhwng oedolion a disgyblion, a rhwng y disgyblion eu hunain. Maent yn deall bod pob un o'r staff yn gyfrifol am les emosiynol disgyblion, a bod pob rhyngweithiad ac ymgysylltiad â disgyblion yn effeithio ar eu hymdeimlad o werth. Mae staff yn gwybod bod eu holl eiriau, gweithredoedd ac agweddau yn effeithio ar les disgyblion. Pan fydd disgyblion yn teimlo ymdeimlad o berthyn a chysylltiad, maent yn fwy tebygol o deimlo'n saff, yn ddiogel ac yn wydn yn emosiynol.

9 Mae'n bwysig fod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi eu hemosiynau a rhannu eu teimladau yn yr ysgol. Mae gan ysgolion da ddulliau clir ar gyfer gwrando ar bryderon disgyblion, a mynd i'r afael â nhw, mewn modd amserol. Maent yn effro i sut mae disgyblion yn teimlo yn ystod y dydd, ac yn gweithio gyda disgyblion i nodi aelodau staff penodol y gallant droi atynt, os bydd angen.

10 Mae gweithio'n agos gyda'r cartref trwy ddarparu gweithgareddau cyfoethogi a gwybodaeth ychwanegol yn gallu helpu atgyfnerthu gwaith yr ysgol i helpu meithrin gwydnwch disgyblion sy'n agored i niwed. Yn aml, mae ysgolion effeithiol yn gweithio'n agos i gefnogi teuluoedd disgyblion sy'n agored i niwed. Pan fydd diwylliant yr ysgol yn agored a dymunol, gallai'r teuluoedd eu hunain fynd at yr ysgol am gymorth.

11 Mae ysgolion da yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol perthnasol i ychwanegu at eu gwaith. Gall asiantaethau allanol gynnig medrau a gwybodaeth arbenigol nad ydynt bob amser ar gael mewn ysgolion, a phan fydd y berthynas rhwng yr holl bartïon yn gryf, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd er lles y disgyblion, gan gryfhau eu gwydnwch a gwella'u bywydau.

12 Gall dulliau meithringar fod yn llwyddiannus iawn o ran helpu meithrin gwydnwch ymhlith disgyblion sy'n ei chael yn anodd ymdopi â'u hamgylchiadau presennol. Gall staff hyfforddedig helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol a gosod y sylfeini ar gyfer meithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a chymheiriaid. Maent yn arfogi disgyblion â'r offer i'w helpu i fod yn fwy gwydn yn wyneb gwahanol heriau.

13 Mae adegau pontio, fel symud ysgol, yn gyfnodau lle gall plant ddioddef gofid emosiynol, neu ostyngiad mewn cynnydd ac ymrwymiad i ddysgu, y gall pob un ohonynt danseilio gwydnwch. Nod pob ysgol yw hwyluso'r broses drosglwyddo i ddisgyblion, yn enwedig ar adegau pontio allweddol. Hefyd, mae gan ysgolion da strategaethau clir ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n symud ar ganol tymor, yn enwedig wrth dderbyn disgyblion a allai fod wedi cael trafferth yn eu lleoliadau blaenorol. Maent yn dod i adnabod y disgyblion newydd yn gyflym, gan sicrhau bod cymorth ar gael o'r cychwyn.

# Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arweinwyr ysgolion cymunedol llwyddiannus yn cyfleu gweledigaeth gref ac ymdeimlad o bwrpas, wedi'u tanategu gan ddealltwriaeth ddofn o'r cymunedau a wasanaethir gan yr ysgol a pharch tuag atynt. Mae gan yr arweinwyr hyn werthoedd cryf wedi'u seilio ar gred mewn cynhwysiant a'r angen i fynd i'r afael ag annhegwch, a phenderfyniad i oresgyn heriau. Mae'r arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn yn feiddgar ac yn ddygn, ac yn cydweithio'n agos â theuluoedd a chymunedau i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Mae arweinwyr yn deall yr heriau cymdeithasol ac economaidd penodol mae eu cymuned yn eu hwynebu, ac effaith y rhain ar ddisgyblion a'u teuluoedd.

2 Mae gwella ysgolion mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn rhoi ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned wrth wraidd prosesau cynllunio. Caiff ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ei gydnabod yn un o'r strategaethau pwysicaf o ran gwella'r ysgol, a chaiff ei ystyried yn rhan annatod o wella lles a chyflawniad disgyblion. Mae ffocws clir ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, gweithio mewn partneriaeth a defnyddio cyfleusterau'r ysgol er budd y gymuned ehangach.

3 Mae ysgolion cymunedol llwyddiannus yn gwerthuso effaith eu strategaethau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn rheolaidd. Maent yn dilyn hynt a helynt newidiadau yn y gymuned, fel tueddiadau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn adolygu eu dulliau er mwyn iddynt allu lliniaru effaith y newidiadau hyn ar eu disgyblion.

4 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn darparu dysgu proffesiynol targedig i'r holl staff a llywodraethwyr. Maent yn cydnabod bod staff a phartneriaid yn gyfrifol am ddulliau cymunedol yr ysgol, ac yn deall anghenion datblygu eu staff a'u partneriaid. Mae'r ysgolion hyn yn cynnwys partneriaid a staff o asiantaethau eraill yn eu dysgu proffesiynol ac yn cydnabod, er mwyn bod yn ysgol gymunedol lwyddiannus, bod angen i'r holl weithwyr proffesiynol hyn rannu gwerthoedd, dealltwriaeth ac ymrwymiad cyffredin i wireddu eu cydweledigaeth.

5 Mae arweinwyr a staff mewn ysgolion cymunedol sydd ag ymgysylltiad cryf â rhieni yn meithrin medrau, hyder a hunan-barch eu rhieni. Mae rhaglenni dysgu i deuluoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu rhieni i wella eu gallu i gynorthwyo eu plant. Yn aml, mae'r rhaglenni hyn wedi'u targedu i gynorthwyo rhieni i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

6 Mae ymgysylltiad rhieni'n nodwedd allweddol o ysgolion cymunedol cryf. Mae'r ysgolion hyn yn darparu ystod o gefnogaeth a chyngor, ac yn cynnwys rhieni fel partneriaid mewn addysg. Mae rhieni'n teimlo, beth bynnag fo'r amgylchiadau, y gallant droi at yr ysgol am gymorth. Mae ysgolion cymunedol llwyddiannus yn trin pob rhiant ag urddas a pharch, ni waeth pa heriau maent yn eu hwynebu. Yn gyfnewid am hyn, mae rhieni'n falch o'u hysgol ac eisiau cydweithio â'r staff i

sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau i'w plant a phobl eraill yn y gymuned. Mae rhieni'n ystyried yr ysgol yn lle y gallant fanteisio ar gyngor a chymorth i'w helpu i ddatrys problemau yn ymwneud â'u plant neu bryderon ehangach yn ymwneud â thai, arian, medrau neu les y teulu.

7 Mae staff â chyfrifoldeb penodol dros ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn hollbwysig i lwyddiant ysgol gymunedol. Mae arweinwyr ysgolion cymunedol effeithiol yn cydnabod pwysigrwydd penodi unigolyn neu dîm i arwain ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned. Mae gan yr aelodau staff hyn fedrau, tueddfrydau, gwybodaeth ac ymroddiad penodol, sy'n sicrhau y gallant gyflawni eu rôl ag awch a sensitifrwydd.

8 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn gwerthfawrogi eu partneriaethau ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys sefydliadau statudol a'r trydydd sector. Gwyddant heb y partneriaethau hyn na fyddant yn gallu darparu gofal integredig, cymorth nac ystod eang o brofiadau i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r berthynas rhwng yr ysgolion hyn a'u partneriaid wedi'i nodweddu gan gyd-barch. Mae arweinwyr ysgol a staff sy'n gweithio mewn ysgolion cymunedol effeithiol yn deall y cyfraniad y gall sefydliadau lleol a chenedlaethol ei wneud i'w hysgol a'r gymuned.

9 Mae ysgolion sy'n meithrin perthynas gref â theuluoedd yn ei gwneud yn hawdd ac yn ddiogel i rieni fynd i mewn i adeilad yr ysgol. Maent yn creu ardal benodol yn yr ysgol i rieni a theuluoedd ei defnyddio, weithiau heb fod angen gwahoddiad neu apwyntiad. Mae'r mannau hyn yn hygyrch, ond mewn lleoliad i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd a ddefnyddir gan ddisgyblion, a chânt eu defnyddio mewn ffyrdd amrywiol. Er enghraifft, gall rhieni ddefnyddio ystafell teuluoedd i gyfarfod yn anffurfiol, dysgu fel teulu, cyfarfod yn breifat â staff ymgysylltu â theuluoedd, neu fynychu cyfarfodydd grwpiau rhieni.

10 Mae ysgolion cymunedol effeithiol yn defnyddio asedau'r ysgol mewn modd ystyriol i wella bywydau plant a theuluoedd yn y gymuned leol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau lleol mewn ffyrdd mentrus a chreadigol. Maent yn ceisio mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth chwaraeon, diwylliannol neu ofal lleol, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r haf. Er y daw'r defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r ysgol gan grwpiau cymunedol ag incwm i'r ysgol, nid dyma'r prif ddiben. Yn yr enghreifftiau gorau o ddefnyddio asedau, mae arweinwyr yn agor yr ysgol oherwydd eu bod yn credu yn rôl yr ysgol fel grym a all helpu i wella'r gymuned.

11 Mae ysgolion â gwasanaethau cydleoledig, fel iechyd, lles a dysgu i oedolion, wedi ymrwymo i gydweithio â'r partneriaid hyn i wella bywydau plant a'u teuluoedd. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu dull wedi'i deilwra i gydleoli gwasanaethau sy'n bodloni anghenion yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned. Er enghraifft, nid oes gan bob ysgol â gwasanaethau cydleoledig gyfleusterau a adeiladwyd yn bwrpasol i letya'r gwasanaethau hynny. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn darparu man 'desgiau poeth' i bartneriaid, neu fynediad at rannau o adeiladau'r ysgol yn rheolaidd.

12 Mae cydleoli gwasanaethau'n galluogi ysgolion cymunedol a'u partneriaid i rannu gwybodaeth a chydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin. Mae hyn yn galluogi ysgolion i roi cymorth cyflym i deuluoedd sy'n agored i niwed, ac atal anawsterau rhag gwaethygu. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan mae ysgolion yn cydweithio'n

agos â darpariaeth Dechrau'r Deg gydleoledig neu wasanaethau eraill yr awdurdod lleol. Mae teuluoedd sy'n derbyn y cymorth hwn yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a wna i'w hansawdd bywyd.

13 Er gwaethaf y dystiolaeth o botensial ysgolion cymunedol mewn llenyddiaeth ymchwil a pholisi'r llywodraeth, ni wireddwyd y weledigaeth ar gyfer ysgolion cymunedol yng Nghymru mewn modd cynhwysfawr na chynaledig. Dros amser, dehonglwyd y cysyniad o ysgolion cymunedol mewn ffyrdd amrywiol, ac mae hyn wedi gadael gwaddol o wahanol fathau o ddarpariaeth. Disgrifiwyd y ddarpariaeth hon mewn adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016, t.14) fel 'heb ei chydlynu ar lefel leol na chenedlaethol, i raddau helaeth'. Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau ar lefel yr ysgol, wedi'u sbarduno gan arweinwyr unigol, fel arfer, sydd â diben moesol cryf a dealltwriaeth o werth cydweithio â theuluoedd a chymunedau.

## Argymhellion

**I wireddu'r weledigaeth ar gyfer ysgolion cymunedol effeithiol yng Nghymru mewn modd strategol a chynaliadwy:**

**Dylai ysgolion:**

A1 Feithrin partneriaethau cryf â theuluoedd fel rhan annatod o wella lles a chyflawniad pob disgybl

A2 Cyfeirio'n glir mewn cynlluniau strategol at sut byddant yn cydweithio â theuluoedd, y gymuned a phartneriaid i wella lles a chyflawniad pob disgybl

A3 Cyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i gydweithio â theuluoedd, y gymuned a phartneriaid ehangach

A4 Cydweithio â'r awdurdod lleol a phartneriaid statudol a'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion teuluoedd a'r gymuned, gan gynnwys cydleoli gwasanaethau a defnyddio asedau'r ysgol

A5 Gwerthuso effaith strategaethau ysgolion cymunedol

**Dylai awdurdodau lleol:**

A6 Gynnwys camau mewn cynlluniau strategol yn ymwneud â sut byddant yn datblygu mentrau awdurdod cyfan i gynorthwyo ysgolion i fod yn ysgolion cymunedol effeithiol

A7 Cryfhau gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i gynllunio ffyrdd i leoli ystod o wasanaethau mewn ysgolion

A8 Sicrhau bod cynllunio ar gyfer Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif yn ystyried yr angen am fannau / ystafelloedd sylfaen i deuluoedd a'r gymuned eu defnyddio

A9 Cynorthwyo ysgolion i benodi staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned, gan gynnwys datblygu swydd ddisgrifiad ar gyfer yr aelodau staff hyn

A10 Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff cymorth ysgolion, cyrff llywodraethol a phartneriaid strategol i ddatblygu ysgolion cymunedol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A11 Ddatblygu cyfres o nodweddion diffiniol, cytûn ar gyfer ysgolion cymunedol, ac ystyried sut caiff ysgolion eu dosbarthu'n 'ysgolion cymunedol' a sut caiff y term hwn ei ddefnyddio i nodi ysgolion penodol

A12 Hyrwyddo manteision ysgolion cymunedol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, gydag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

A13 Cryfhau'r disgwyliad i gynnwys camau gweithredu ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned mewn cynlluniau strategol ysgolion

A14 Adnewyddu arweiniad cenedlaethol ar ysgolion cymunedol, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd, a rhoi arweiniad ar sut gall ysgolion werthuso a gwella eu strategaethau ysgol gymunedol

A15 Sicrhau bod cynllunio, arweiniad a safonau adeiladu ar gyfer y rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn ystyried yr angen am leoedd y gall teuluoedd a'r gymuned eu defnyddio

# Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID–19

## Prif ganfyddiadau

### Lles

1 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn adrodd eu bod wedi cynnal cysylltiad rheolaidd â'u dysgwyr. Mewn ysgolion arbennig sy'n addysgu disgyblion dydd, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i gefnogi lles eu disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn cysylltu â disgyblion a'u teuluoedd yn rheolaidd, naill ai trwy alwadau ffôn rheolaidd, cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau ar-lein neu ymweliadau â chartref y teulu.

2 Mae bron pob un o'r ysgolion prif ffrwd yn dweud eu bod yn cynnal cysylltiad rheolaidd â'u disgyblion. Mae arweinwyr yn siarad am 'sicrhau bod pob disgybl yn weladwy' yn yr amgylchiadau unigryw hyn.

3 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn dweud eu bod wedi gwneud addasiadau i'w harferion gwaith ar y safle i flaenoriaethu diogelwch a lles dysgwyr.

4 Mae disgyblion a staff wedi cael cyngor ac arweiniad, yn enwedig o ran atgyfnerthu diogelwch ar-lein. Mae arweinwyr yn dweud eu bod wedi rhannu protocolau clir sefydledig ar sut i gyfathrebu'n ddiogel â staff a disgyblion, fel ei gilydd.

5 Bron ym mhob ysgol a choleg, rhoddir ystyriaeth gynyddol i effaith y systemau a'r arferion addysgu presennol ar les staff a dysgwyr.

### Cyfathrebu

6 Mae bron pob un o'r ysgolion a'r colegau yn adrodd eu bod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cadw mewn cysylltiad â dysgwyr a'u teuluoedd neu'u gofalwyr yn rheolaidd.

7 Mae bron pob un o'r ysgolion yn deall bod angen cyfathrebu'n glir â staff, naill ai trwy'r e-bost neu drwy gyfarfodydd ar-lein. Mae amlder y cyfarfodydd a nifer y dogfennau arweiniad neu'r dogfennau gwybodaeth sy'n cael eu llunio wedi amrywio rhwng darparwyr a thros gyfnod.

8 Mae llawer o ysgolion prif ffrwd yn disgrifio sut y maent wedi cynnal ysbryd cymunedol trwy wasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau tŷ, heriau hwyliog ar gyfer disgyblion a pharhad y 'gwobrau wythnosol'.

9 Mae ychydig o ysgolion sydd naill ai'n rhan o sefydliad mwy neu sydd â chysylltiadau personol wedi cael cyngor ac arweiniad gan arweinwyr ysgol o gwmpas y byd. Mae'r ysgolion tramor hyn, a oedd eisoes yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag addysgu disgyblion yn ystod y pandemig, yn cynnig cyngor buddiol.

## Dysgu ar y safle ac o bell

10 Mae bron pob ysgol a choleg yn dweud eu bod wedi gwneud trefniadau i sicrhau parhad mewn dysgu ers cau ysgolion yn gyffredinol yng Nghymru.

11 Mae ysgolion prif ffrwd yn adrodd eu bod wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau dysgu, yn dibynnu ar faint a phroffil oedran yr ysgol. Mae arweinwyr yn mynegi'r farn fod angen iddynt fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion staff a disgyblion fel ei gilydd.

12 Mae ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig sy'n addysgu disgyblion dydd, neu gyfuniad o ddisgyblion dydd a disgyblion preswyl, yn disgrifio sut maent wedi datblygu strategaethau sy'n diwallu gwahanol amgylchiadau'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Er y gallai hyn gynnwys cyflwyno gwersi neu rannu adnoddau trwy blatfformau ar-lein, nid yw hyn bob amser yn ymarferol oherwydd yr heriau y mae'r disgyblion hyn yn eu hwynebu yn eu dysgu neu'u hamgylchiadau teuluol. Yn yr achosion hyn, mae ysgolion yn hwyluso dysgu o bell ar gyfer y disgyblion hyn trwy ddanfon copïau caled o becynnau gwaith neu weithgarwch i gartref y teulu sydd naill ai'n disodli gweithgareddau ar-lein wedi'u cynllunio, neu'n ychwanegu atynt.

13 Arhosodd lleiafrif o ysgolion prif ffrwd ar agor i ddarparu addysg ar gyfer plant gweithwyr allweddol a oedd ar y gofrestr yn yr ysgol. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar y galw am y gwasanaeth hwn ym mhob lleoliad.

## Pontio

14 Mae llawer o ddarparwyr addysg arbennig yn wynebu heriau wrth hwyluso prosesau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â'r ysgol neu'r coleg, yn ogystal ag ar gyfer y rhai sy'n paratoi i adael.

15 Pan fydd ysgolion ynghlwm â chartrefi preswyl, mae gweithdrefnau ymsefydlu i'r ysgol, yn ôl yr arweinwyr, wedi digwydd yn unol â'r arfer, ar ôl i'r dysgwr setlo yn y cartref i ddechrau.

16 Mewn ysgolion prif ffrwd, mae arweinwyr yn ymwybodol na fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn benodol wedi profi'r trefniadau pontio arferol.

## Dysgu proffesiynol

17 Dywed llawer o arweinwyr fod pob un o'r staff wedi gwella eu gallu i ddefnyddio TGCh a phlatfformau ar-lein yn sylweddol i gefnogi dysgu.

18 Mae llawer o ddarparwyr yn adrodd eu wedi parhau i ddarparu datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn ystod y cyfnod hwn trwy gynnig hyfforddiant ar-lein. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r amser cynyddol sydd ar gael i ddatblygu a gweithredu rhaglenni hyfforddi ar gyfer staff sy'n cysylltu â blaenoriaethau a nodwyd yn y gorffennol i'w datblygu, fel datblygu'r cwricwlwm neu ddysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu (CCD).

## Cynllunio ar gyfer dychwelyd i ddysgu ar y safle ar gyfer yr holl ddysgwyr

19 Mae bron pob ysgol a choleg yn ystyried yn ofalus beth mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd yr holl ddysgwyr yn dychwelyd.

20 Mae cyfathrebu â rhieni a sicrhau hyder rhieni ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol yn allweddol.

21 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion a cholegau wedi parhau i weithredu yn ystod y cyfnod clo, er bod hynny ar gyfer llai o ddisgyblion. Mae hyn wedi rhoi cipolwg i arweinwyr ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o dan y cyfyngiadau presennol, a'r hyn y mae angen iddynt ei fireinio neu'i addasu er mwyn i ddisgyblion allu dychwelyd i'r ysgol yn llawn.

22 Pan fu canlyniadau cadarnhaol yn sgil eu harfer bresennol, er enghraifft defnyddio TGCh i gefnogi dysgu neu fanteision caniatáu i staff weithio o gartref, mae darparwyr yn ystyried sut gellir ymgorffori'r rhain yn eu harfer yn y dyfodol, a chadw'r manteision hyn.

# Pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch

## Prif ganfyddiadau

### Safonau

1 Mae llawer o ddysgwyr yn dechrau astudio pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol am y tro cyntaf pan fyddant yn dechrau yn y chweched dosbarth neu'r coleg. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau ac mae ychydig yn gwneud cynnydd eithriadol, o gymharu â'u mannau cychwyn. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn symud ymlaen o UG i gwblhau astudiaethau Safon Uwch neu nid ydynt yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae cyfran fwy o lawer o ferched na bechgyn yn dewis astudio'r gyfraith, seicoleg neu gymdeithaseg ac mae cyfran fwy o lawer o fechgyn na merched yn dewis astudio astudiaethau busnes neu economeg. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion graddau uchel mewn Safon Uwch ac UG (graddau A*-C ac A-C, yn y drefn honno).

2 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mwynhau astudiaethau Safon Uwch ac mae llawer ohonynt yn dangos diddordeb brwd mewn materion cyfoes, yn enwedig mewn pynciau fel economeg, a llywodraeth a gwleidyddiaeth. Mae gan leiafrif ohonynt ddyheadau i astudio pynciau busnes neu astudiaethau cymdeithasol ar lefel addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac ymdeimlad cryf o falchder yn eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn rheoli'u hamser yn effeithlon ac yn trefnu'u ffeiliau gwaith yn effeithiol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gorddibynnu ar gymorth a deunyddiau a ddarperir gan eu hathrawon ac nid ydynt yn gwneud digon o ymchwil annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr ddealltwriaeth glir o'u cryfderau eu hunain a'r hyn y mae arnynt angen ei wneud i wella. Mewn ychydig achosion, nid yw dysgwyr yn adeiladu ar adborth athrawon i wella'u gwaith.

3 Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau ysgrifennu, yn enwedig trwy waith traethawd ac ymchwil, er bod ychydig yn cynhyrchu gwaith nad yw'n ddigon gwerthusol. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau rhifedd cryf mewn busnes, economeg a seicoleg, ond nid yw ychydig ohonynt yn ymdrin â data a'i ddadansoddi yn hyderus. Nid yw llawer o ddysgwyr yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ddigon da i wella'u gwaith, er enghraifft trwy ddefnyddio pecynnau ystadegau i ddadansoddi a chyflwyno data mewn prosiectau ymchwil. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau cryf o ran datrys problemau ac maent yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn cyd-destunau newydd.

4 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau penodol mewn cyrsiau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cymhwyso modelau a chysyniadau damcaniaethol i'r byd go iawn, a dehongli a gwerthuso gwybodaeth o ffynonellau cymhleth, gan gynnwys y cyfryngau a chyfnodolion academaidd. Maent yn datblygu'r gallu i gyflwyno dadl a thrafod rhinweddau safbwyntiau gwahanol. Mae

dysgwyr yn cydnabod nad oes un ateb cywir yn aml mewn busnes ac astudiaethau cymdeithasol, a bod angen iddynt ddewis o blith amrywiaeth o ddehongliadau dilys a chyfiawnhau eu dewis, trwy gyflwyno dadl resymegol.

## Darpariaeth

5 Mae ychydig ysgolion a cholegau'n cynnig holl ystod y pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol, ac mae llawer yn cynnig rhai, ond nid pob un, o'r pynciau hyn. Yn gyffredinol, mae tuedd i ehangder cynnig y cwricwlwm berthyn yn uniongyrchol i nifer y dysgwyr. Mae ychydig ddarparwyr yn cynnig un neu fwy o bynciau mewn partneriaeth â chanolfannau eraill. Mae bron bob un o'r canolfannau yn sicrhau bod pynciau'n parhau o UG i Safon Uwch, er y gall meintiau dosbarthiadau amrywio'n helaeth.

6 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau yn galluogi dysgwyr i ennill cipolwg cyfyngedig yn unig i natur pynciau'r gwyddorau cymdeithasol cyn iddynt ddewis eu pynciau Safon Uwch. Hefyd, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cael digon o arweiniad ar ddewis cyfuniadau o bynciau sy'n briodol i'w dyheadau gyrfa a dilyniant.

7 Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith da gyda dysgwyr ac yn gosod disgwyliadau clir ar eu cyfer. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth gadarn am eu pwnc a dealltwriaeth gyfredol o ofynion asesiadau allanol. Maent yn cynllunio'u haddysgu'n dda i sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n effeithiol ar gyfer arholiadau allanol.

8 Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn cyfleu angerdd go iawn tuag at eu pwnc ac yn ysbrydoli'u dysgwyr trwy ddefnyddio strategaethau addysgu ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn trafod materion amserol er mwyn annog dysgwyr i gymhwyso damcaniaethau a chysyniadau i sefyllfaoedd go iawn. Hefyd, maent yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd darllen yn ehangach yn eu pynciau.

## Arweinyddiaeth

9 Mae'r trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth Safon Uwch mewn busnes ac astudiaethau cymdeithasol yn amrywio'n helaeth rhwng ysgolion a cholegau unigol. Strwythurau rheoli sydd wedi'u strwythuro ar sail disgyblaethau pynciau academaidd sydd fwyaf cyffredin mewn ysgolion, gyda llawer o golegau wedi'u trefnu ar sail meysydd galwedigaethol bras. Mae ychydig o golegau sydd â niferoedd mawr o ddysgwyr Safon Uwch wedi sefydlu canolfannau chweched dosbarth pwrpasol, fel arfer gyda threfniadau arwain sy'n debycach i'r trefniadau mewn ysgolion uwchradd.

10 Mae llawer o ysgolion a cholegau'n cynnal adolygiadau o glystyrau pwnc neu gyrsiau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddarparwyr, nid yw'r prosesau hyn yn nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella mewn pynciau penodol yn ddigon cadarn.

11 Mae llawer o ysgolion a cholegau'n tueddu i ganolbwyntio'n bennaf ar gyfraddau llwyddo mewn Safon Uwch neu ddata cwblhau'n llwyddiannus ac ni roddant ddigon o sylw i'r radd a gyflawnwyd na faint o gynnydd mae'r myfyriwr wedi'i wneud. Hefyd, nid yw lleiafrif ohonynt yn cyfrif ddigon am berfformiad ar lefel UG wrth werthuso perfformiad pwnc. Mae llawer o ganolfannau'n pennu graddau mynediad gofynnol mewn TGAU Saesneg neu fathemateg i ddysgwyr allu astudio rhai pynciau, fel

economeg neu seicoleg. Gall yr arfer hon gam-ystumio data cyrhaeddiad ac, felly, mae'n bwysig ystyried data gwerth ychwanegol wrth gymharu canlyniadau ar draws darparwyr.

12 Mae ychydig ysgolion a cholegau yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill i ymestyn y dewis o bynciau sydd ar gael. Ond, mewn llawer o'r partneriaethau hyn, nid yw'r trefniadau sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr i nodi meysydd i'w gwella yn gywir.

13 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn nodi mai cymorth sydd ar gael trwy fwrdd arholi CBAC yw'r brif ffynhonnell ddysgu proffesiynol ar gyfer y pynciau hyn, naill ai drwy rwydweithiau pwnc neu yn gysylltiedig â rolau fel arholwyr Safon Uwch. Bach iawn o gymorth pwnc y mae'r consortia rhanbarthol yn ei ddarparu yn gysylltiedig â'r pynciau hyn. O ran mwyafrif athrawon y pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol, nhw yw unig athro Safon Uwch y pwnc yn eu hysgol neu goleg. Yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd gweithio cydweithredol, gall hyn arwain at anawsterau cyflenwi ar gyfer dosbarthiadau pan fydd aelod staff yn absennol, yn enwedig os bydd hyn am gyfnod estynedig.

14 Yn sgil diwygio Safon Uwch ac UG yn ddiweddar, bu newid o ran y corff dyfarnu ar gyfer pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae oedi cyn bod deunyddiau ac adnoddau ar gael ar gyfer rhai pynciau wedi ychwanegu at yr heriau y mae dysgwyr ac athrawon wedi'u hwynebu. Mae argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys gwerslyfrau, yn parhau'n her benodol.

### Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu rhagor am opsiynau pwnc newydd, fel pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch, cyn dewis eu pynciau yn derfynol

A2 Gweithio'n gydweithredol ag ysgolion a cholegau eraill i rannu adnoddau dysgu, yn enwedig adnoddau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu'r cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch

A3 Cryfhau'r prosesau monitro a gwerthuso ar gyfer pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch i sicrhau bod athrawon ac arweinwyr yn gallu nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gysylltiedig ag addysgu, dysgu ac asesu

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A4 Hwyluso mwy o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon pynciau busnes ac astudiaethau cymdeithasol Safon Uwch

A5 Cynorthwyo ysgolion i werthuso effeithiolrwydd eu darpariaeth Safon Uwch a datblygu cynlluniau gwella targedig

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A6 Fynd i’r afael ag argaeledd cyfyngedig adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg Safon Uwch, gan gynnwys gwerslyfrau, yn y pynciau hyn

# Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant

## Prif ganfyddiadau

### Ble mae darpariaeth yn fwyaf effeithiol

1 Mewn ysgolion a cholegau sydd â diwylliant cryf o gynhwysiant, mae dysgwyr LGBT yn ffynnu. Yn yr achosion hyn, maent yn teimlo mor hyderus â'u cyfoedion i fynegi eu teimladau a'u credoau. Maent yn mwynhau synnwyr cryf o les ac yn cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol neu'r coleg.

2 Yn yr ysgolion neu'r colegau hyn, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweld perthnasoedd o'r un rhyw fel ffurf arall ar amrywiaeth y dylid ei dathlu ynghyd â nodweddion gwarchodedig eraill, fel hil, crefydd ac anabledd.

3 Mae'r ysgolion a'r colegau hyn yn adolygu eu cwricwlwm i ymgorffori materion LGBT mewn ffordd sy'n briodol i ddatblygiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol trwy eu profiadau dysgu ac yn eu hamgylchedd ysgol neu goleg yn rheolaidd.

4 Mae'r ysgol neu'r coleg yn mynd ati i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach, gan gynnwys grwpiau ffydd, i sicrhau eu bod yn deall ymagwedd y sefydliad at ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Maent yn cydnabod y gallai rhai rhanddeiliaid herio hyn a gwrando ar wahanol safbwyntiau, a'u hystyried, ond gweithredu er lles dysgwyr yn y pen draw.

5 Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu yn herio stereoteipiau rhywedd ac yn mynd i'r afael â materion cysylltiedig fel y maent yn codi. Mae dysgwyr yn dechrau deall effaith negyddol stereoteipio o ran rhywedd o oedran ifanc.

6 Nid yw bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn digwydd yn aml, ac ymdrinnir ag ef yn gadarn pan fydd achosion yn codi. Mae arweinwyr yn gweithio gyda staff a dysgwyr i ddatblygu eu polisi a'u gweithdrefnau gwrthfwlio i sicrhau eu bod yn cydnabod, yn cofnodi ac yn mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Maent yn creu amgylchedd lle mae staff a dysgwyr yn teimlo'n hyderus i herio bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, a defnyddio iaith homoffobig.

7 Mae arweinwyr yn rhoi systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut i droi at aelod o staff am faterion personol, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â materion LGBT a 'dod allan'. Maent yn sicrhau bod staff bugeiliol penodol yn meddu ar y medrau a'r wybodaeth i gefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau diogel, ond bod gan bob un o'r staff yr hyder hefyd i ymateb i'r cwestiynau a'r pryderon am faterion LGBT a godir gan ddysgwyr.

8 Mae grwpiau llais y disgybl a llais y dysgwr yn darparu rhwydwaith cymorth gwerthfawr ar gyfer pobl ifanc LGBT. Yn yr achosion gorau, maent yn darparu adborth gwerthfawr i ysgolion a cholegau ar brofiad dysgwyr LGBT. Mae arweinwyr

yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus i addasu eu polisïau a'u cwricwlwm i wella profiad addysgol dysgwyr LGBT a hyrwyddo cynhwysiant i bawb.

9 Mae ysgolion a cholegau yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu dysgwyr trawsryweddol, y rhai sy'n cwestiynu eu hunaniaeth o ran rhywedd, a'r rhai sydd wrthi'n newid eu rhyw. Maent yn cydnabod nad oes ateb cyffredin na syml i'r heriau hyn, a bod angen hyblygrwydd a deialog â phawb sydd ynghlwm.

10 Pan fydd y ddarpariaeth ar ei chryfaf, mewn tua thraean o ysgolion ac yn y rhan fwyaf o golegau, mae arweinwyr yn dangos diben moesol clir tuag at hyrwyddo cynhwysiant a dathlu amrywiaeth. Maent yn sefydlu ethos sy'n hyrwyddo unigoliaeth, goddefgarwch a pharch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les yr holl ddysgwyr. Yn yr ysgolion a'r colegau mwyaf cynhwysol, mae staff LGBT yn teimlo eu bod yn gallu trafod eu bywydau personol a'u perthnasoedd gyda disgyblion a chydweithwyr o fewn canllawiau sydd yr un mor berthnasol i staff LGBT a heterorywiol.

11 Mae arweinwyr yn blaenoriaethu ystyried lles ac iechyd meddwl dysgwyr yn eu trefniadau hunanwerthuso. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant i ystyried darpariaeth ar gyfer dysgwyr LGBT a pha mor dda y mae eu cwricwlwm a'u hamgylchedd dysgu yn annog dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Mae casglu safbwyntiau'r holl ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n LGBT, yn rhan bwysig o hyn.

12 Mae arweinwyr yn sicrhau dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff sy'n datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u hyder i gefnogi dysgwyr LGBT ac yn cynorthwyo i greu ethos cynhwysol. Yn aml, mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan bartneriaid allanol arbenigol, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer staff penodol sy'n eu galluogi i gyflwyno dysgu proffesiynol i gydweithwyr yn eu sefydliad eu hunain.

### Ble mae darpariaeth yn llai cryf

13 Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr LGBT yn wynebu lefelau amrywiol o fwlio a gwahaniaethu sy'n cael effaith negyddol ar eu profiad yn yr ysgol neu goleg, gan arwain at bresenoldeb gwaelach a chynnydd academaidd arafach na'u cyfoedion.

14 Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol fel rhan o'u cwricwlwm neu o gwmpas eu hysgol neu goleg. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn datblygu safbwyntiau negyddol am bobl LGBT ac na fydd dysgwyr LGBT yn gwerthfawrogi y gallant fod yr un mor llwyddiannus â dysgwyr eraill.

15 Mae mynd i'r afael â materion LGBT yn rhan ychwanegol o ddarpariaeth yr ysgol neu'r coleg, er enghraifft gydag athrawon yn mynd i'r afael â nhw fel rhan o sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn unig. Gallai hyn atgyfnerthu'r ymdeimlad fod pobl LGBT yn fater arbennig y mae angen ei drafod, yn hytrach nag yn rhan o fywyd bob dydd.

16 Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsryweddol yn cael eu cofnodi neu fod tueddiadau'n cael eu nodi ac y gweithredir yn unol â nhw, nac yn sicrhau bod staff yn ymgymryd â dysgu roffesiynol o ansawdd uchel sy'n rhoi hyder iddynt gefnogi dysgwyr LGBT.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Adolygu cynnwys eu cwricwlwm a'u cyrsiau unigol i ystyried pa mor dda y caiff addysgu amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys materion LGBT, ei integreiddio mewn profiadau dysgu

A2 Sicrhau bod achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn cael eu cofnodi, a bod tueddiadau'n cael eu nodi, ac y gweithredir yn unol â nhw

A3 Sicrhau bod pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â phobl LGBT

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A4 Weithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff mewn ysgolion ar draws sectorau cynradd ac uwchradd

A5 Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau dilyniant mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb rhwng sectorau

# Gwerth Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cymwysterau gwaith ieuenctid yn arfogi myfyrwyr â chefndir cadarn mewn arfer gwaith ieuenctid, ac yn rhoi iddynt y medrau sydd eu hangen arnynt i gyflawni yn eu proffesiwn. Mae'r sector gwaith ieuenctid wedi gwneud cynnydd gwerthfawr yn unol â bron pob un o'r argymhellion yn 'Arolwg o hyfforddiant cymwysterau proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru' (Estyn, 2010). Gweler Atodiad 1.

2 Yn gyffredinol, mae myfyrwyr gwaith ieuenctid yn cyflawni'n dda, er bod llawer ohonynt wedi dechrau mewn addysg uwch o gefndiroedd addysg a chymdeithasol annhraddodiadol, a gallent fod wedi wynebu heriau sylweddol yn eu bywydau. Yn aml, mae eu profiadau eu hunain yn golygu y gallant ddeall y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc, a dangos empathi. Mae llawer ohonynt yn symud ymlaen o Lefel 3 i lefel gradd ac mae ychydig ohonynt yn symud ymlaen i gyflawni graddau uwch.

3 Mae rhaglenni hyfforddiant gwaith ieuenctid yn cyd-fynd yn dda â'r pum nod allweddol a amlinellir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2019. Mae cynnwys cyrsiau ar bob lefel yn rhoi cydbwysedd addas rhwng hyfforddiant academaidd ac ymarferol, ac yn rhoi i fyfyrwyr y medrau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â swyddi mewn amrywiaeth eang o leoliadau gwaith ieuenctid a chymuned.

4 Mae Addysg Oedolion Cymru|Adult Learning Wales a sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynnig cymwysterau priodol a chyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr symud ymlaen i ddilyn cyrsiau ar lefel uwch, hyd at, ac yn cynnwys, cyrsiau ôl-raddedig ar Lefel 7. Mae ychydig o gyflogwyr yn cynnig llwybrau prentisiaeth ar gyfer hyfforddiant gwaith ieuenctid.

5 Mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus, ac yn ennill eu cymwysterau. Mae bron pob un o'r myfyrwyr yn darparu esboniadau cadarn ynghylch pam maent yn dilyn eu rhaglenni astudio, ac maent yn llawn cymhelliant. Mae llawer ohonynt yn cyfeirio at yr effaith drawsnewidiol a gafodd gwaith ieuenctid ar eu bywydau eu hunain, a dangosant awydd angerddol a diffuant i ddylanwadu ar fywydau pobl ifanc er gwell. Hefyd, maent yn datblygu ystod eang o fedrau eraill fel medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol, ochr yn ochr â chynnwys y cwrs craidd.

6 Mae safon yr addysgu a'r cyfarwyddyd yn effeithiol ar draws y darparwyr amrywiol. Mae myfyrwyr yn canmol y profiad, cymhwysedd staff, a'r cymorth addysgol a bugeiliol a ddarperir ar draws yr holl ddarparwyr cyrsiau. Mae tiwtoriaid gwaith ieuenctid a chymuned yn weithwyr ieuenctid profiadol a chymwys, sy'n defnyddio eu profiadau ymarferol yn y maes i ymestyn eu haddysgu a'u mewnbwn academaidd. Fe ddewn nhw ag ymroddiad ac angerdd i'w rôl, yn ogystal â dealltwriaeth gadarn o weithio mewn partneriaeth, datblygiadau yn y sector a gwaith ieuenctid rhyngwladol.

7 Mae lleoliadau gwaith yn elfen hanfodol o raglenni hyfforddiant gwaith ieuenctid. Maent yn darparu'r lleoliad ymarferol lle gall myfyrwyr ddefnyddio'r agweddau

damcaniaethol ar eu cwrs, a myfyrio ar eu harfer eu hunain o dan oruchwyliaeth pobl eraill. Mae pob SAU wedi cymryd camau effeithiol i wella argaeledd, addasrwydd a goruchwyliaeth lleoliadau gwaith, ond mae lleoliadau gwaith yn parhau i fod yn her o ganlyniad i amrywiadau o ran lleoliad a galw. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn teimlo bod lleoliadau gwaith yn berthnasol a buddiol i'w datblygiad proffesiynol ac academaidd. Mae llawer o fyfyrwyr yn trefnu eu lleoliadau eu hunain, a gall hyn achosi i ychydig ohonynt gael problemau o ran dod o hyd i leoliadau, argaeledd staff goruchwylio cymwys, a'r cymorth a gynigir iddynt.

8 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau gwaith ieuenctid yn effeithiol. Mae gan bob darparwr brosesau rheoli ansawdd cadarn ar waith ar gyfer rheoli cyrsiau gwaith ieuenctid a chymuned. Yn aml, mae'r prosesau hyn yn esiampl dda i gyrsiau eraill o fewn y brifysgol. Mae rheolwyr cyfadrannau a chyrsiau yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth ac yn craffu ar ddata i reoli ansawdd ac effeithiolrwydd cyrsiau. Mae ganddynt systemau a chynlluniau o ansawdd da ar waith i ddogfennu'r prosesau rheoli. Mae deilliannau myfyrwyr yn destun cymedroli allanol trylwyr ar gyfer perfformiad academaidd a chraffu gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (ETS). Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr fesurau effeithiol ar waith i sicrhau ansawdd lleoliadau gwaith a dilyniant myfyrwyr yn ystod y lleoliad. Mae pob un ohonynt yn ymwybodol o'r heriau a gyflwynir gan leoliadau gwaith, ac yn gweithio'n galed i'w gwella.

9 Mae sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant gwaith ieuenctid wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, er bod anghysondebau a phroblemau cyffredin yn parhau ledled Cymru. Mae gan sefydliadau fwy o ddogfennau Cymraeg nag o'r blaen, ac maent yn galluogi myfyrwyr i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg. Caiff myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg gyfleoedd priodol i ddefnyddio eu Cymraeg mewn lleoliadau gwaith, ond mae cyfleoedd i astudio yn Gymraeg yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac mae dysgu dwyieithog yn parhau i fod heb eu datblygu'n ddigonol yn y sector gwaith ieuenctid.

10 Erbyn hyn, mae pob SAU yn integreiddio elfennau o addysgu â chyfadrannau eraill yn eu sefydliad. Mae'r drefn hon o rannu theori ac arfer ar draws arbenigeddau yn datblygu dealltwriaeth o'r cyd-destunau y mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda phobl ifanc ynddynt, ac yn eu cynorthwyo i fod yn ddinasyddion hyderus a gwybodus.

11 Mae tebygrwydd rhwng medrau a methodoleg gwaith ieuenctid a'r ffyrdd newydd o weithio a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru 2022 (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae SAUau yn paratoi myfyrwyr gwaith ieuenctid ar gyfer y cyfraniad y gallant ei wneud at addysg ffurfiol ac anffurfiol trwy archwilio dogfennau arfer a pholisi perthnasol fel Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) mewn modiwlau cyrsiau ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig.

12 Mae ymglymiad agos ETS â'r sector a glynu at safonau Cyd-bwyllgor Negodi'r DU (JNC) yn sicrhau bod cymwysterau gweithwyr ieuenctid a'r hyfforddiant a gawsant ar y lefelau proffesiynol uchaf. Mae hyfforddiant gwaith ieuenctid yn rhoi ystod eang iawn o fedrau i ymarferwyr ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc. Mae'r medrau hyn yn adlewyrchu pum piler gwaith ieuenctid, sef: addysgiadol, mynegiannol, cyfranogol a grymusol (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018) ac yn arfogi gweithwyr i ymgymryd â gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth eang o leoliadau

statudol ac anstatudol. Hefyd, mae hyfforddiant proffesiynol yn arfogi gweithwyr ieuenctid â'r medrau i weithio mewn swyddi rheoli. Fodd bynnag, nid yw medrau gweithwyr ieuenctid neu fedrau y mae amrywiaeth eang o gyflogwyr yn gofyn amdanynt, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ar hyn o bryd.

13 Erbyn hyn, mae llawer o ysgolion uwchradd yn dechrau gweld gwerth cael gweithiwr ieuenctid yn aelod o'r staff, ond mewn llawer o achosion, maent yn gweithio gyda phobl ifanc heriol yn unig, ac fe gânt eu gweld fel gweithwyr sy'n cynorthwyo â rheoli ymddygiad, neu gymorth ar gyfer pobl ifanc â 'phroblemau', ac yn aml, ni chânt eu gwerthfawrogi'n ddigonol fel addysgwyr drwy eu hawl eu hunain.

14 Mae nifer y gweithwyr ieuenctid a'r gweithwyr cymorth ieuenctid sydd wedi eu cofrestru'n ffurfiol yn tanamcangyfrif nifer y gweithwyr hyn sy'n cyflwyno gwaith ieuenctid ar draws yr amrywiaeth lawn o leoliadau. Dim ond 429 o weithwyr ieuenctid a 692 o weithwyr cymorth ieuenctid sydd wedi eu cofrestru gyda CGA ar 1 Mawrth 2020 (CGA, 2020). Mae rhai o'r rhesymau am y tanamcangyfrif hwn yn cynnwys: mae'r rhestr o gymwysterau cymhwyso yn anghywir ac wedi dyddio, mae gweithwyr ieuenctid nad ydynt wedi cwblhau eu gradd neu ni allant gofrestru, ac nid yw'n ofynnol i weithwyr ieuenctid mewn rhai sefydliadau gofrestru. Mae CGA yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, ETS, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a Grŵp Cyfranogiad Strategaeth Datblygu'r Gweithlu i ddatrys y materion hyn.

15 Ar ôl hyfforddi, nid yw'n ofynnol i weithwyr ieuenctid, fel athrawon, gwblhau blwyddyn brawf, ac nid ydynt yn gymwys i gael cyfleoedd dysgu proffesiynol fel hawl chwaith. Mae'r ffaith nad oes statws gweithiwr ieuenctid cymwys sydd gyfwerth â statws athro cymwys (SAC) ar gyfer athrawon yn golygu nad yw gweithwyr ieuenctid yn elwa yn yr un ffordd ag athrawon ar hyfforddiant parhaus ar gyfer eu medrau proffesiynol, a chydnabyddiaeth ohonynt. Hefyd, mae diffyg cyllid i gefnogi cyfleoedd hyfforddi parhaus. Ni chaiff uwch weithwyr ieuenctid eu cynnwys mewn rhaglenni arweinyddiaeth addysgol cenedlaethol na rhanbarthol, ac mae hyn yn rhwystro datblygiad arweinyddiaeth o fewn y proffesiwn.

16 Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig mewn cefnogi a datblygu hyfforddiant gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, nid oes ganddynt yr adnoddau bob amser i gefnogi datblygu cyrsiau neu gyfrannu at hyfforddiant gweithwyr ieuenctid (statudol a gwirfoddol, fel ei gilydd), gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai addysg yn yr awdurdod lleol.

### Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Barhau i weithio gyda phob partner yn y sector gwaith ieuenctid i gefnogi datblygiad gwaith ieuenctid a hyfforddiant gwaith ieuenctid, gan gynnwys gallu arweinyddiaeth

A2 Parhau i weithio gyda CGA ac ETS i ddiweddaru a gwella'r trefniadau cofrestru ar gyfer gweithwyr ieuenctid i sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei drin yn yr un ffordd â phroffesiynau addysg eraill

A3 Comisiynu'r archwiliad medrau llawn ar gyfer y sector, i gynnwys medrau sydd eu hangen ar gyflogwyr a medrau presennol gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid sydd wedi eu cofrestru gyda CGA a'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith ieuenctid ac nid ydynt wedi eu cofrestru

A4 Ymchwilio i ddarpariaeth llwybrau prentisiaethau ffurfiol ar gyfer hyfforddi gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid

A5 Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant gwaith ieuenctid a sefydliadau perthnasol eraill i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn hyfforddiant gwaith ieuenctid.

**Dylai darparwyr hyfforddiant gwaith ieuenctid:**

A6 Wneud yn siŵr fod gweithwyr ieuenctid a myfyrwyr o broffesiynau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cael cyfleoedd i hyfforddi gyda'i gilydd

A7 Gwella argaeledd, amrywiaeth ac ansawdd lleoliadau gwaith

**Dylai awdurdodau lleol:**

A8 Annog ysgolion i gydnabod medrau arbenigol a gwybodaeth broffesiynol gweithwyr ieuenctid ar gyfer cefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd

A9 Cefnogi a chyfrannu at ddatblygu cyrsiau ar gyfer hyfforddi gweithwyr ieuenctid statudol a gwirfoddol, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai addysg

**Dylai consortia rhanbarthol:**

A10 Archwilio ffyrdd o gynnwys gweithwyr ieuenctid ochr yn ochr ag athrawon mewn cyfleoedd hyfforddiant dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth addysgol

## Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig

### Prif ganfyddiadau

### Yr hyn sy'n gweithio'n dda

1 Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynrychioli ystod o gyd-destunau ledled Cymru. Yn yr ysgolion hyn, mae penaethiaid a'u staff yn frwdfrydig ynghylch y cyfleoedd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig i ddarparu profiadau dysgu perthnasol a difyr i ddisgyblion. Maent yn ei ystyried yn gyfle i ailystyried yr hyn sy'n bwysig i'w disgyblion a'u cymuned yn yr 21ain ganrif.

2 Yn ddigon dealladwy, mae llawer o'r ysgolion a fu'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddiwygio'r cwricwlwm fel ysgolion arloesi, ysgolion gwella ansawdd neu'n ysgolion braenaru ymhellach ar y blaen o ran eu syniadau ynghylch dylunio'r cwricwlwm nag ysgolion eraill, yn gyffredinol. Mae bod yn rhan o broses diwygio'r cwricwlwm wedi datblygu eu hyder i arloesi a rheoli newid. Mae'r ysgolion hyn wedi gallu treialu a mireinio eu dulliau dros gyfnod o tua dwy i dair blynedd. Mewn ychydig iawn o achosion, casglodd arweinwyr farnau disgyblion a staff ar gyfer pob treial er mwyn gwerthuso a oedd profiadau disgyblion wedi gwella.

3 Yn yr ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr ac athrawon yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y ffordd mae'r Cwricwlwm i Gymru'n hybu dull mwy personol o ran y cwricwlwm. Maent o'r farn bod y cwricwlwm yn annog dull sy'n addasu dysgu yn ôl cryfderau, anghenion, medrau a diddordebau pob disgybl. Mae'r dull hwn a'r gwerthoedd sy'n cael eu hybu gan y pedwar diben yn tanategu strategaethau a mabwysiadwyd eisoes gan lawer o ysgolion arbennig. Maent yn croesawu'r ffocws ar les disgyblion a'u profiadau dysgu personoledig.

4 Lle mae gan arweinwyr, ond yn benodol y pennaeth, agwedd gadarnhaol tuag at arloesi'r cwricwlwm, mae cyfathrebu cryf a diwylliant o rannu yn agwedd allweddol ar eu gwaith. Mae ymrwymiad clir penaethiaid i'r cwricwlwm newydd, a'u dealltwriaeth ohono, yn ffurfio sail i'r ethos cadarnhaol sy'n treiddio'r ysgolion sy'n gweithio'n effeithiol. Mae'r arweinwyr hyn yn annog dull teilwredig o ddylunio'r cwricwlwm, ac maent bob amser yn ystyried y dull gorau i'w hysgol. Mae hyder ac ymddiriedaeth staff mewn arweinwyr yn gynhwysion allweddol o ran datblygu cwricwlwm newydd yn llwyddiannus.

5 Yn y rhan fwyaf o'r ysgol yr ymwelwyd â nhw, mae uwch arweinwyr yn cydnabod bod datblygu'r cwricwlwm yn flaenoriaeth gref ac maent yn dyrannu digon o amser, adnoddau a chyfrifoldebau iddo. Mae ffocws ar ddatblygu staff wrth wraidd holl waith yr ysgolion hyn. Mae meddylfryd strategol sydd wedi ystyried addysgeg, cwricwlwm, medrau a dysgu proffesiynol yn tanategu'r gwaith hwn. Mae disgwyliadau uchel o staff ymhob un o'r meysydd hyn.

6 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol â'r holl randdeiliaid ac wedi treulio amser sylweddol yn datblygu ac yn adolygu gweledigaeth ar gyfer eu hysgolion a'u disgyblion. Mae mwyafrif wedi dechrau llunio gweledigaeth i'w hysgolion yng nghyd-destun y pedwar diben a'u gwerthoedd eu hunain. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu dealltwriaeth gref o sut bydd eu gweledigaeth yn llywio'r cwricwlwm, y dull addysgu a deilliannau disgyblion.

7 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi adolygu eu dull addysgu. Maent wedi adolygu eu polisïau addysgu a dysgu, ac wedi defnyddio ymchwil gyfredol i lywio dulliau addysgegol. Trwy ganolbwyntio ar addysgu a dysgu, mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn datblygu dealltwriaeth gyffredin ac ymdeimlad o ddiben, nid trwy'r 'beth' ond trwy'r 'sut' o addysgu.

8 Lle mae arweinwyr yn rheoli cyflymder newid yn sensitif â dull pwyllog, digynnwrf, mae athrawon yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses arloesi a newid. Mae arweinwyr effeithiol yn deall bod angen i gwricwlwm ysgol da fod yn eang ac yn gytbwys, ac nad yw arloesi'r cwricwlwm yn golygu bod rhaid i bob arfer flaenorol newid. Mae'r arweinwyr hyn yn cadw'n ffyddlon i egwyddorion a gwerthoedd sefydledig eu hysgol, yn parhau i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel, ac yn gwneud newidiadau yn ôl yr angen i wella ansawdd addysg i'w disgyblion. Bydd faint o newid sydd ei angen yn amrywio o un ysgol i'r llall. Mae arweinwyr effeithiol yn adolygu'n onest sut mae cwricwlwm cyfredol eu hysgol yn alinio â'r pedwar diben. Yn ogystal, mae'r arweinwyr hyn yn ymwybodol o'r cryfderau a'r gwendidau yn ymwneud ag addysgu a dysgu yn eu hysgolion.

9 Lle mae ysgolion yn ystyried ac yn cyflwyno systemau a phrosesau newydd yn sensitif, mae diwygio'r cwricwlwm yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r broses ddiwygio yn gynhwysfawr, mae staff yn ei deall ac mae'n cyfateb yn agos i'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn deall y rhesymau y tu ôl i unrhyw newidiadau, ac felly'n eu cefnogi.

10 Lle mae uwch arweinwyr yn ymddiried yn eu staff ac yn eu hannog i fentro'n bwyllog i wella dylunio, cynllunio a deilliannau'r cwricwlwm, mae arweinwyr wedi disgrifio hyn fel 'newid byd'. Mae staff yn mwynhau'r cyfleoedd i fod yn greadigol ac arbrofi. Lle mae hyn yn gweithio'n arbennig o dda, mae hyblygrwydd a sylweddoliad nad oes rhaid i'r dull ar gyfer y cwricwlwm fod yr un fath ar draws pob disgyblaeth neu faes dysgu a phrofiad, ond y dylid ei addasu i weddu'r cynnwys, yr amgylchedd dysgu, yr athro a'r disgyblion.

11 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr wedi achub ar y cyfle hwn i adolygu eu strwythur staffio. Ambell waith, mae hyn wedi arwain at gyfleoedd i staff gael eu secondio i'r tîm arweinyddiaeth i arwain ar agwedd benodol ar ddatblygu'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn sicrhau y caiff prif negeseuon eu lledaenu i'r gymuned ysgol gyfan. Mae'r defnydd strategol o staff brwdfrydig, medrus sy'n gallu cymell eraill yn ategu'r gwaith i ennill 'calonnau a meddyliau'. Mae'r amser y mae arweinwyr yn ei dreulio yn datblygu dealltwriaeth eu staff o'r Cwricwlwm i Gymru yn allweddol i ddatblygu meddylfryd sy'n croesawu newid ac yn fodlon rhoi cynnig ar ddulliau newydd.

12 Mewn lleiafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinwyr yn meddwl am sut gallant gynyddu'r amser i staff gydweithio â'i gilydd, er enghraifft drwy leihau llwyth addysgu pob un o'r athrawon gan un wers bob pythefnos. Mewn un ysgol, mae'r diwrnod ysgol yn dechrau awr yn hwyrach erbyn hyn, er nad yw'n lleihau'r amser addysgu cyffredinol i ddisgyblion. Mae'r amser dechrau hwyrach yn golygu y gall staff ddefnyddio awr gyntaf y diwrnod mewn ffordd hyblyg, er enghraifft i weithio mewn timau i gynllunio'r cwricwlwm. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr wedi dyrannu amser i gynnal cyfarfodydd yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod cyfarfodydd ar ôl ysgol yn cynnig amser wedi'i glustnodi i ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mewn ysgol arall, er mis Medi 2019, mae disgyblaethau'n defnyddio un cyfarfod adrannol bob hanner tymor i drafod eu dull gweithio mewn meysydd dysgu a phrofiad, ac i gynllunio a gwerthuso darpariaeth bresennol. Mae'r ysgol wedi defnyddio dwy sesiwn gyda'r nos ac un diwrnod HMS i ymgymryd â'r gwaith hwn hefyd. Lle caiff yr amser hwn ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol, mae'n helpu i chwalu'r rhwystrau rhwng meysydd pwnc ac yn hwyluso cydgynllunio, wrth gynnal arbenigeddau pwnc. Mae grwpiau o athrawon nid yn unig yn cynllunio â'i gilydd, ond hefyd yn gwerthuso effaith y newidiadau'n brydlon ac yn cymryd camau cyflym lle nad yw'r dulliau a arbrofwyd yn gweithio.

13 Mae lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio cydweithio rhwng ysgolion yn effeithiol, er enghraifft i ddatblygu gwaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Eu nod yw creu cysylltiadau cryf o ran datblygu'r cwricwlwm a deall sut olwg sydd ar gynnydd disgyblion o 3 i 16 oed. Hefyd, mae ysgolion uwchradd yn cydweithio ag ysgolion uwchradd eraill ar gydgynllunio, sy'n cynnwys newid meddylfryd, ac mae arweinwyr canol yn symud o fod yn arweinwyr cymwysterau i fod yn arweinwyr y cwricwlwm. Mae llawer o ysgolion arbennig yn cydweithio'n agosach â'i gilydd hefyd wrth benderfynu ar y dull gorau i ddatblygu cwricwlwm sy'n gweddu i anghenion eu disgyblion.

14 Pan fydd addysgu o ansawdd da ar waith ac mae staff yn hyderus yn eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm, mae ychydig o ysgolion yn ymgysylltu ag ymchwil broffesiynol. Mae'r ymchwil hon yn galluogi athrawon i dreialu dulliau newydd o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r effaith ar ei chryfaf pan fydd arweinwyr yn cwblhau gwerthusiadau rheolaidd o'r treialon hyn drwy farnu'r effaith ar arfer yn yr ystafell ddosbarth a deilliannau disgyblion.

### Rhwystrau rhag cynnydd

15 Mae bron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gadarnhaol ynghylch y cyfleoedd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig, yn gyffredinol. Serch hynny, mae rhwystrau tybiedig sy'n atal cynnydd mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw.

16 Mae pob un o'r ysgolion yn croesawu'r diwrnodau HMS ychwanegol a gynlluniwyd i gefnogi datblygu'r cwricwlwm. Er nad oedd yn fwriad i ddatblygu'r cwricwlwm gael ei gyflawni mewn amser HMS yn unig, mae arweinwyr yn teimlo efallai na fydd yr amser sydd ganddynt yn ddigon i fynd i'r afael â'r dysgu proffesiynol a chynllunio'r cwricwlwm sydd eu hangen. Mae ysgolion uwchradd yn ymateb i newidiadau i gymwysterau hefyd. Mae ysgolion arbennig yn benodol yn teimlo'r pwysau i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant

gorfodol sydd ei angen yn y lleoliadau hyn yn ymwneud ag anghenion corfforol a meddygol cymhleth eu disgyblion.

17 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw staff wedi cael y cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd eu hangen arnynt i ddeall y broses dylunio cwricwlwm ysgol-gyfan hyd yn hyn. Gallai hyn fod oherwydd nad yw partneriaid strategol wedi rhannu gwybodaeth yn ddigon da, neu oherwydd nad yw arweinwyr wedi deall pwysigrwydd canolbwyntio ar yr egwyddorion sylfaenol hyn (cynllunio eich cwricwlwm). O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn dueddol o gynllunio newidiadau a gweithgareddau bob yn dipyn, heb ddatblygu diben clir nac ystyried yr effaith ar ddilyniant disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn aml, nid oes gan yr ysgolion hyn systemau effaithiol i werthuso effaith newid arfaethedig.

18 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan staff bryderon ynghylch colli arbenigedd pwnc, ac nid ydynt am wanhau'r defnydd o athrawon arbenigol. Yn yr ysgolion hyn, mae'n bosibl bod arweinwyr ac athrawon wedi camddehongli bwriad y cwricwlwm newydd. Efallai nad ydynt yn deall mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cwricwlwm ac, er y caiff gweithio ar draws ffiniau ei annog rhwng pynciau, nid oes unrhyw awgrym y dylid colli arbenigeddau pwnc.

19 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae amharodrwydd i gynllunio cwricwlwm ysgol-gyfan a threfniadau asesu newydd gan barhau i gyflwyno cwricwlwm sy'n bodloni anghenion arholiadau cyhoeddus cyfredol. Crybwyllodd lleiafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ddiffyg gwybodaeth am gymwysterau a threfniadau asesu'r dyfodol fel rheswm i ohirio datblygu cwricwlwm newydd. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio atebolrwydd fel rheswm i beidio â datblygu cwricwlwm cyffrous, neu wneud mân newidiadau hyd yn oed. Mae hyn yn awgrymu bod yr ysgolion hyn yn rhoi mwy o ffocws ar 'addysgu ar gyfer y prawf' yn hytrach na chyflwyno cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol.

20 Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae athrawon yn teimlo bod cyfyngiadau eu hamserlen bresennol yn atal eu creadigrwydd wrth fynd i'r afael â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o ysgolion yn amharod i fentro â dylunio amserlen. Maent yn ei chael yn heriol meddwl yn wahanol am y posibiliadau sy'n bodoli o fewn y diwrnod ysgol ar hyn o bryd. Mae ychydig o ysgolion yn dechrau rhaglen TGAU tair blynedd ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn dewis eu hopsiynau yn 12 oed, sy'n culhau eu profiadau addysgol yn rhy gynnar ac yn mynd yn groes i'r egwyddor o addysg eang a chytbwys.

21 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae un aelod staff yn gyfrifol am arwain mentrau'r cwricwlwm. Heb dîm y cwricwlwm ar gyfer cynaliadwyedd a chynllunio olyniaeth, mae momentwm yn aml yn cael ei golli os yw'r aelod staff hwn yn gadael yr ysgol.

22 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw uwch arweinwyr yn deall nac yn coleddu nodau sylfaenol y cwricwlwm newydd yn llawn. Nid yw'r arweinwyr hyn yn meddwl nac yn cynllunio'n ddigon strategol wrth ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, dysgu ac addysgu yn eu hysgolion. Mae ychydig o ysgolion yn copïo dull, strwythurau a chynnwys cwricwlwm ysgolion eraill, yn hytrach na datblygu eu trefniadau eu hunain. Hefyd, mae ychydig o ysgolion yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu dulliau dysgu thematig heb sefydlu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm cyfan yn gyntaf, na sut byddant yn gwella ansawdd addysgu a dysgu. Mae hyn yn lleihau'r manteision i ysgol o ran mynd drwy'r broses newid drwy adolygu a myfyrio, a

gall arwain at gwricwlwm nad yw'n bodloni anghenion ei disgyblion, ac sy'n cyfyngu ar gefnogaeth ac anogaeth gan gymuned yr ysgol.

23 Mae gwella ansawdd addysgu, a datblygu dealltwriaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng y cwricwlwm ac addysgeg, yn gam allweddol o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae gan ychydig o ysgolion wendidau o ran ansawdd yr addysgu, ac mae eu taith â'r cwricwlwm yn debygol o fod yn hwy ac yn fwy cyfyngedig hyd nes caiff ansawdd yr addysgu ei wella.

24 Mae ychydig o ysgolion wedi defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i ailstrwythuro staff, yn enwedig ar lefel rheolwyr canol. Mae hyn wedi arwain at rywfaint o bryder a drwgdybiaeth ymhlith staff, ynghyd ag amharodrwydd i ymgysylltu â newid y cwricwlwm. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae ysgolion wedi mabwysiadau systemau a strwythurau ysgolion eraill, yn hytrach nag ymgynghori â staff a datblygu eu rhai eu hunain.

25 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae 'blinder newid' wedi lleihau pa mor gyflym y mae'r ysgol wedi teimlo ei bod yn gallu dechrau cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn rhai eraill, mae staff yn mynegi ofn methu a phoeni y gallant fod wedi camddehongli'r cwricwlwm newydd. Yn aml, nid oes gan yr arweinwyr a'r staff hyn yr hyder na'r ddealltwriaeth i fynd ati i ddiwygio'r cwricwlwm, ac maent yn chwilio am fwy o arweiniad neu ddysgu proffesiynol.

26 Mae cysylltiadau cwricwlaidd gwan rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfyngu ar gynllunio ar gyfer dilyniant. Mae cysylltiadau cwricwlaidd cyfredol yn canolbwyntio'n bennaf ar Gymraeg/Saesneg a mathemateg ac, mewn ychydig o enghreifftiau, gallant gynnwys gweithgarwch pontio ar draws Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Mae'r cysylltiadau cwricwlaidd y tu hwnt i'r grŵp bach o bynciau hyn yn brin. Mae trefniadau pontio'n canolbwyntio'n bennaf ar les disgyblion a chynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, yn hytrach na datblygu dealltwriaeth glir o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni er mwyn adeiladu cwricwlwm mwy effeithiol i Flwyddyn 7. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd pontio, mae disgyblion yn aml yn cyrraedd ysgolion uwchradd sy'n cydweithio â sawl ysgol gynradd bartner gydag amrywiad eang o ran gwybodaeth a medrau. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach cynllunio ar gyfer parhad mewn dysgu.

27 Bu gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion arloesi, gwella ansawdd, braenaru a'u hysgolion partner i ddatblygu'r cwricwlwm yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd. Mae ysgolion partner yn crybwyll eu bod wedi cael gwybodaeth mewn digwyddiadau consortia rhanbarthol, yn gyffredinol, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan ysgolion arloesi. Gallai hyn fod oherwydd diffyg systemau cyfathrebu ffurfiol rhwng ysgolion arloesi ac ysgolion partner. Mae ychydig o ysgolion yn teimlo bod y disgwyliadau y mae consortia'n eu rhoi arnynt yn rhy feichus, a bod pwysau arnynt i fod ymhellach ar y blaen o ran diwygio'r cwricwlwm nag sy'n angenrheidiol ar hyn o bryd. Mae ychydig o ysgolion yn teimlo eu bod wedi cael negeseuon cymysg gan y grwpiau meysydd dysgu a phrofiad cenedlaethol gwahanol.

# Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19

## Prif ganfyddiadau

1 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), mae uwch arweinwyr wedi cynnig cymorth da i'w gilydd ac wedi cydweithredu i greu dulliau ac adnoddau ar y cyd.

2 Rhoddodd awdurdodau lleol gymorth gwerthfawr i alluogi i'w hysgolion a'u UCDau ailagor i'w holl ddisgyblion yn llwyddiannus ym mis Medi. Cryfderau penodol oedd y cymorth ymarferol o ran iechyd a diogelwch a chyfathrebu â rhieni a dysgwyr. Er enghraifft, pan yn briodol, gweithiodd awdurdodau lleol gyda phartneriaid iechyd a gofal i gefnogi asesiadau risg, gan gynnwys i ddisgyblion bregus, a datblygu pecynnau croeso oedd yn darparu gwybodaeth i rieni, gofalwyr a disgyblion. Croesawodd arweinwyr ysgol y cyfarwyddyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ganolbwyntio ar les disgyblion, a theimlont fod hyn yn briodol.

3 Yn ystod y cyfnod clo a thymor yr hydref, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion y gwyddant eu bod yn fregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn yn amlwg yn effeithlonrwydd eu hymateb i'r anghenion hyn. Mewn awdurdodau lleol eraill lle nad yw'r cydweithio wedi'i sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd i gryfhau gweithio ar y cyd. Hefyd, cyfrannodd y defnydd estynedig ar gyfathrebu digidol at weithio amlasiantaeth mwy effeithlon mewn awdurdodau lleol.

4 Yn ystod cyfnod clo tymor y gwanwyn a'r haf, bu'n rhaid i athrawon ymateb yn gyflym i'r angen i ddarparu deunyddiau dysgu o bell i ddisgyblion. Fe wnaeth y ddarpariaeth hon wella yn ystod tymor yr haf. Oherwydd bod angen o hyd i nifer o ddisgyblion ddysgu i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth yn ystod tymor yr hydref, mae gwella ymhellach a gwreiddio darpariaeth dysgu o bell a chyfunol yn parhau'n flaenoriaeth. Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi datblygu canllawiau defnyddiol, rhestri arfer dda ac amrywiaeth o ddysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mae goruchwyliaeth ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ansawdd y ddarpariaeth wedi'i thanddatblygu. Nid yw 22 y cant o'r athrawon a ymatebodd i'r arolwg o'r farn eu bod wedi cael digon o ddysgu proffesiynol i ategu'u dealltwriaeth o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

5 Mae profiadau dysgu'r disgyblion wedi amrywio'n helaeth ar draws ac o fewn ysgolion ers ailagor. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith amrywiol y pandemig mewn ardaloedd gwahanol a, hefyd, o ganlyniad i'r polisïau a'r arferion gwahanol y mae awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu o ran cysylltiadau agos, a'r ffyrdd gwahanol y mae ysgolion wedi trefnu grwpiau a charfannau o ddisgyblion. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at brofiadau dysgu anghyfartal i ddisgyblion sydd wedi cael y rhan fwyaf o'u haddysg yn nhymor yr hydref yn yr ysgol ac i'r disgyblion hynny sydd

wedi cael eu haddysgu o bell am gyfnodau estynedig. Mae'r rhwystrau rhag dysgu gartref, a amlygwyd yn nhymor yr haf, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol, yn parhau.

6 Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddar, nododd y Prif Arolygydd 'er ymdrechion sylweddol gan ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth ganolog i ddarparu cyfarpar a chymorth ychwanegol, roedd lleiafrif o ddygwyr dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at gyfarpar cyfrifiadurol addas neu ddiffyg cysylltedd digonol'. Mae'r rhwystrau dysgu yn y cartref a nodwyd yn nhymor yr Haf, gan gynnwys mynediad i dechnoleg ddigidol yn parhau.

7 Mae'r pandemig eisoes wedi cael mwy o effaith ar rai grwpiau o ddisgyblion ac wedi mwyhau heriau a fodolai eisoes. Er enghraifft, mae arweinwyr ysgol wedi dweud wrthym fod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu na'u cymheiriaid yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol â'u medrau iaith a rhifedd yn wannach nag yr oeddent cyn i'r cyfnod clo ddechrau.

8 Mae'r pandemig wedi gwaethygu rhai heriau yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia eisoes wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â nhw. Mae profiad disgyblion ledled Cymru o'r pandemig wedi bod yn wahanol iawn o ganlyniad i'w hamgylchiadau gartref. Mae'r cyfnod cau ysgolion a'r angen i ddisgyblion weithio gartref am gyfnodau yn ystod tymor yr hydref wedi amlygu'r angen i ddisgyblion allu gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus ac i ysgolion ganolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i wella gwydnwch dysgu.

9 Mae awdurdodau lleol a chonsortia wedi cydnabod effaith tymor hwy bosibl y pandemig ar les plant a phobl ifanc. Mae pob un ohonynt wedi cynnig dysgu proffesiynol estynedig i staff ysgolion ac UCDau ar gefnogi lles, gan gynnwys, profedigaeth a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae plant a phobl ifanc sydd eisoes yn wynebu heriau oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cyn y pandemig wedi wynebu heriau pellach. Efallai hefyd fod y pandemig wedi effeithio ar blant a phobl ifanc mewn amgylchedd teuluol sefydlog, gydag ychydig neu ddim profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er enghraifft, gall amser i ffwrdd oddi wrth ffrindiau oherwydd cyfnodau clo, cyfnodau o ynysu neu orfod aros mewn swigod caeth yn yr ysgol gael effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac ar eu hiechyd meddwl.

10 Gan amlaf, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau bod prosesau statudol i ddisgyblion yn gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys asesiadau ac adolygiadau blynyddol, wedi parhau yn ystod tymor yr hydref. Lle y bu oedi, y rheswm fwyaf cyffredin oedd prinder yng nghapasiti gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaethau arbenigol eraill oherwydd absenoldeb staff neu oblegid yr heriau o ddarparu'r gwasanaeth o bell.

11 Mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi parhau i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon ac arweinwyr ysgol yn ystod tymor yr hydref. Mae'r defnydd effeithiol cynyddol o gyfathrebu digidol wedi cael canlyniadau cadarnhaol o ran hwyluso rhyngweithiadau mwy chwim, effeithlon a chyson rhwng ac o fewn cymunedau dysgu ledled Cymru. Mae ysgolion ac arweinwyr UCDau wedi

gwerthfawrogi hyblygrwydd cyfleoedd dysgu proffesiynol ar-lein a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

12 Mae barn gymysg ymhlith arweinwyr ysgol ledled Cymru am effeithiolrwydd y cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol a'u consortiwm gwella addysg rhanbarthol yn ystod y pandemig. Arweinwyr ysgol yn ne-orllewin Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol ac arweinwyr ysgol yng ngogledd Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu consortiwm rhanbarthol.

13 Gwnaeth awdurdodau lleol addasiadau cynnar priodol i'r trefniadau llywodraethu, ond roedd ychydig awdurdodau lleol yn rhy araf yn ailddechrau eu swyddogaethau craffu. Erbyn canol Gorffennaf, roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd Cabinet ar-lein, ond dim ond hanner y cynghorau a oedd wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir o'u pwyllgorau craffu. O ganlyniad, nid oedd hanner y cynghorau wedi craffu ar benderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion a darparu cymorth i ddysgwyr yn yr haf. Erbyn yr hydref, roedd Cabinetau pob cyngor yn cwrdd ar-lein ac roedd pwyllgorau craffu yn y rhan fwyaf o gynghorau yn cwrdd ar-lein hefyd.

## Argymhellion

**Argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:**

A1 Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt a'r we

A2 Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDau

A3 Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A4 Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion

A5 Creu cyfleoedd i bwyso a mesur a gwerthuso effaith polisïau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm

# Partneriaethau ôl-16

## Prif ganfyddiadau

### Cynllunio ac arweinyddiaeth strategol

1 Mae'r mwyafrif o golegau ac awdurdodau lleol yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Maent yn rhannu eu cynlluniau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i werthuso effeithiau'r cynlluniau hyn ar ysgolion a cholegau yn yr ardal. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar un llaw, a cholegau ar y llaw arall, yn ymgysylltu â'i gilydd yn ddigon da. Mewn gormod o achosion, nid yw cynllunio arweinwyr ysgolion a cholegau yn ystyried cymuned ehangach ysgolion a cholegau lleol, a'r garfan ehangach o ddysgwyr, yn ddigon da.

2 Dywed mwyafrif yr uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth nad yw'r berthynas â'u colegau lleol mor gryf ag ydyw gydag ysgolion eraill, ar y cyfan. Hefyd, mae uwch arweinwyr mewn colegau yn cydnabod bod hyn yn broblem rhwng colegau a lleiafrif o ysgolion ledled Cymru. Maent yn adrodd am ymdeimlad o gystadleuaeth a diffyg tryloywder ac ymddiriedaeth rhwng y ddau sector. Mewn ychydig o achosion, mae tensiynau tebyg yn bodoli rhwng ysgolion.

3 Mewn ychydig o achosion, mae gwahanol gyfundrefnau cynllunio, cyllido a goruchwylio yn rhwystro partneriaethau cynhyrchiol rhwng darparwyr. Mae ffiniau gweinyddol o'r fath yn codi rhwng ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol, a rhwng y sectorau ysgolion a cholegau yn ogystal. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddarparwyr sydd mewn sefyllfa dda i weithio gyda'i gilydd yn cydweithio o ganlyniad i'r gwahanol gyfundrefnau y maent yn gweithredu oddi tanynt.

4 Nid yw darparwyr ac awdurdodau lleol yn defnyddio Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 i arwain eu cynllunio strategol yn y sector ôl-16 yn ddigon da. Nid yw lleiafrif o arweinwyr ysgolion yn hyderus fod y cynnig sydd ar gael i'w dysgwyr yn bodloni gofynion y mesur. Mae prosesau llywodraeth leol a chenedlaethol ar gyfer sicrhau bod darparwyr yn bodloni'r gofynion wedi dod yn llai effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, caiff cydymffurfio â'r mesur ei fonitro'n anghyson ledled Cymru, ac ar hyn o bryd, nid yw'n glir faint o ddysgwyr a all fanteisio ar gynnig cwricwlwm digon eang yn y sector ôl-16.

5 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae sawl awdurdod lleol wedi cynnal adolygiadau gwerth chweil o ddarpariaeth chweched dosbarth leol sy'n arwain at argymhellion strategol defnyddiol ar gyfer gwelliannau. Mewn ychydig o achosion, nid yw ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i'r argymhellion hyn yn ddigon da. Mae hyn yn caniatáu i agweddau gwan neu aneffeithlon ar ddarpariaeth ôl-16 barhau.

6 Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i rannu darpariaeth ôl-16 lle mae dysgwyr o wahanol ddarparwyr yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau addysgu cyfunol. Mae hyn yn helpu sicrhau dewis gwell o gyrsiau ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth a lleihau costau gweithredol. Mewn ychydig o achosion, mae

uwch arweinwyr yn defnyddio arbenigwyr pwnc o ddarparwyr partner i helpu gwella ansawdd yr addysgu. Er enghraifft, mae darparwyr yn cyfnewid cyfrifoldeb am gyflwyno cyrsiau penodol er mwyn gwella'r profiad dysgu. Mae ychydig o ddarparwyr yn gwahodd arbenigwyr pwnc o ysgolion neu golegau eraill i helpu cefnogi a gwella eu hadrannau pwnc.

7 Mae mwyafrif o arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad cyrsiau a gyflwynir i'w dysgwyr gan ddarparwyr eraill. Maent yn manteisio ar werthusiadau ei gilydd o wersi a chofnodion cynnydd dysgwyr dros gyfnod, ac yn casglu barn dysgwyr am eu gwersi hefyd. Mae effeithiolrwydd cyffredinol prosesau gwella ar gyfer darpariaeth ar y cyd yn anghyson ledled Cymru, ac mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan arweinwyr drefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith.

8 Mae mwyafrif yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn rhannu darpariaeth ôl-16 trwy bartneriaethau bach a arweinir gan y darparwyr eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion cyfagos yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf. I oresgyn y pellterau hir rhyngddynt, mae ychydig o ddarparwyr yn rhannu darpariaeth trwy ddefnyddio cysylltiadau fideo rhwng gwersi ei gilydd. Mae llawer o athrawon pwnc sy'n cyflwyno gwersi chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cydweithio'n dda i ddatblygu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd cydweithio i helpu dysgwyr i ddilyn elfennau o gyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Gweithio mewn partneriaeth

9 Ledled Cymru, mae traean o ysgolion uwchradd yn rhan o drefniadau cyfunol, heb unrhyw chweched dosbarth yn yr ysgolion eu hunain. Mae gan 8% eu chweched dosbarth eu hunain ac nid ydynt yn rhannu unrhyw ddarpariaeth ag ysgolion neu golegau eraill. Mae chweched dosbarth gan y 59% o ysgolion sy'n weddill, a dywedant eu bod yn rhan o bartneriaethau ôl-16 o ryw fath.[2] Mae gan ddau o'r 12 coleg addysg bellach yng Nghymru, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, rolau arwyddocaol mewn rhwydweithiau partneriaeth ôl-16 ar y cyd ag ysgolion lleol. Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag Ysgol Gyfun Pen-coed gerllaw hefyd i weithredu canolfan chweched dosbarth ar y cyd.

10 Fel rhan o'u cyflwyniadau data ôl-16 blynyddol, dylai ysgolion sy'n defnyddio darpariaeth ar y cyd gyflwyno gwybodaeth am ddarparwr pob cwrs y mae eu dysgwyr yn ei ddilyn. At ei gilydd, nid yw ysgolion ledled Cymru yn adrodd yn ddigonol am raddau'r ddarpariaeth hon ar y cyd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fonitro graddau darpariaeth o'r fath a'r deilliannau a gyflawnir gan y grwpiau o ddysgwyr sy'n cymryd rhan.

11 Mae'r rhan fwyaf o chweched dosbarthiadau ysgolion sy'n rhannu darpariaeth yn cludo dysgwyr rhyngddynt i fynychu gwersi; mae ychydig iawn o ysgolion yn defnyddio trefniadau dysgu o bell yn lle.[3] Yn y naill achos a'r llall, mae trefniadau darpariaeth ar y cyd yn aml yn anffurfiol, ac nid oes ganddynt drefniadau ysgrifenedig sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'n glir.

---

[2] Arolwg a gynhaliwyd trwy gonsortia rhanbarthol ym mis Hydref 2020; gweler ffigur 4.

[3] Ers adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae darparwyr wedi cynyddu eu defnydd o drefniadau dysgu o bell i ymateb i bandemig COVID-19.

12 Mae llawer o ysgolion yn cynnig dewis eang o opsiynau astudio yn y chweched dosbarth i ddysgwyr. Fodd bynnag, yn 2018-2019, roedd dysgwyr mewn 25% o ysgolion yn astudio ar draws ystod fwy cyfyngedig o 25 o gyrsiau chweched dosbarth neu lai (Llywodraeth Cymru, 2020e). Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n mynychu chweched dosbarthiadau ysgolion eu bod wedi gallu dewis y pynciau roeddent eisiau eu hastudio, ond nid oedd ychydig ohonynt yn cael cyfle i astudio pynciau llai poblogaidd a oedd o ddiddordeb iddynt, er enghraifft gwleidyddiaeth neu economeg.

13 Mae uwch arweinwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn sicrhau bod y mwyafrif o athrawon chweched dosbarth ac arweinwyr canol ysgolion yn ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol ochr yn ochr â'u cyfoedion o ysgolion eraill. Rhwng colegau, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch rhwydweithio yn cynnwys uwch arweinwyr, sy'n cyfarfod â'u cyfoedion o bob cwr o Gymru yn rheolaidd. Fodd bynnag, ychydig o ddarparwyr yn unig sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi dysgu proffesiynol rhwng ysgolion a cholegau, hyd yn oed lle mae ganddynt staff yn ymgymryd â rolau tebyg. Mewn mwyafrif o achosion, nid yw consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cyfathrebu neu'n gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i ddatblygu'r cyfleoedd hyn.

### Cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i addysg ôl-16

14 Mae llawer o ysgolion yn rhoi gwybodaeth addas i ddysgwyr am yr opsiynau sydd ar gael wedi iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn elwa ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau i'w helpu i ddysgu am eu hopsiynau ôl-16 ym mhob darparwr lleol, a phenderfynu rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod â chynrychiolwyr o ddarparwyr ôl-16 lleol eraill, gan gynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith, yn ogystal ag ysgolion a cholegau.

15 Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a gânt tra byddant yn yr ysgol. Mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw cyngor gan ysgolion yn mynd i'r afael â llwybrau eraill yn lle astudiaethau Safon Uwch yn ddigonol, a bod aelodau staff yn aml yn canolbwyntio ar annog dysgwyr i symud ymlaen i chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae dysgwyr o'r farn nad yw darparwyr ôl-16, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yn rhannu digon o wybodaeth am ansawdd eu darpariaeth a'r deilliannau a gyflawnir gan eu dysgwyr.

16 Mae llawer o chweched dosbarthiadau ysgolion a cholegau yn rhoi blaenoriaeth uchel i nifer y cofrestriadau dysgwyr. Yn aml, mae arweinwyr chweched dosbarthiadau bach yn teimlo eu bod dan bwysau ariannol i sicrhau bod dysgwyr Blwyddyn 11 yn symud ymlaen i'w chweched dosbarth. Mewn lleiafrif o achosion, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cyfyngu ar hyrwyddo dewisiadau eraill o ganlyniad. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr ysgol yn gwahodd darparwyr eraill i drafod eu darpariaeth ôl-16 gyda dysgwyr Blwyddyn 11 mewn ffordd gynhwysfawr.

17 Nid yw mwyafrif y darparwyr yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr unigol i gefnogi eu cyfnod pontio pan fyddant yn trosglwyddo i ysgol arall neu goleg. Prin yw'r darparwyr sy'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch *'Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol'* (Llywodraeth Cymru, 2019) yn llwyddiannus.

18 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion nad oes ganddynt eu chweched dosbarth eu hunain yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i ddysgwyr am ystod lawn yr opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt. Mae dysgwyr yn elwa ar ryngweithio rheolaidd gyda darparwyr ôl-16 lleol, ysgolion a cholegau fel ei gilydd, i ddysgu am y cyrsiau a gynigir a thrafod eu dyheadau. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn rhyngweithio â darparwyr dysgu yn y gwaith hefyd. Mae gan lawer ohonynt drefniadau pontio effeithiol sy'n cael eu cefnogi gan ddeialog fuddiol rhwng aelodau staff ysgol sy'n adnabod dysgwyr unigol yn dda, a chynrychiolwyr o'r darparwyr ôl-16.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Sicrhau gwaith partneriaeth cryf i ddatblygu darpariaeth gydweithredol â darparwyr eraill lle mae hyn yn helpu i wella ansawdd neu ehangu dewis

A2 Sicrhau bod darpariaeth ôl-16 a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn cael ei hategu gan gytundebau ysgrifenedig o gyfrifoldebau, ac y caiff ei chynnwys yn llawn o fewn prosesau cynllunio gwelliant

A3 Sicrhau bod cyngor ac arweiniad i ddysgwyr yn ddiduedd, yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, ac yn cael ei lywio gan y ddarpariaeth, y safonau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 lleol

A4 Rhannu gwybodaeth i gefnogi cyfnod pontio dysgwyr i ddarparwyr eraill, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

A5 Cyflwyno gwybodaeth gywir am y rhaglenni y mae dysgwyr yn eu dilyn, yn cynnwys darparwr pob gweithgaredd dysgu, fel rhan o'u cyflwyniadau data blynyddol i Lywodraeth Cymru

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 Sicrhau bod cynllunio strategol yn cynnwys y gymuned ehangach o ysgolion a cholegau lleol

A7 Gweithio gyda cholegau ar weithgareddau dysgu proffesiynol ar y cyd, lle bo'n briodol

A8 Gweithio gyda cholegau i sicrhau bod ystod addas o ddarpariaeth ôl-16 ar gael yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A9 Adolygu ac atgyfnerthu deddfwriaeth, polisi ac arweiniad ar gyfer darpariaeth ôl-16 i sicrhau cysondeb ac eglurder disgwyliadau mewn ffordd sy'n adeiladu ar ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru

A10 Cymhwyso dull cyson i oruchwylio a monitro ansawdd darpariaeth ôl-16, yn cynnwys ystyriaethau cynllunio a chyllido

A11 Rhoi gwybodaeth glir i ddarpar ddysgwyr a'u rhieni am gynnydd a deilliannau dysgwyr ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach yng Nghymru

A12 Sicrhau bod unrhyw Gomisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn y dyfodol yn mynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad thematig hwn

# Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu ac agweddau at ddysgu

1 Mewn lleoliadau, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn datblygu'u medrau iaith a llythrennedd yn effeithiol.

2 Er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar siarad, darllen ac ysgrifennu, mae safonau iaith a llythrennedd mewn ysgolion cynradd yn ddigon tebyg i'r rheini yr adroddom amdanynt bum mlynedd yn ôl. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cadarn neu well yn eu datblygiad iaith. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dysgwyr sy'n fwy abl yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Ar y cyfan, nid yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched.

3 Mewn ysgolion lle mae safonau gwrando, siarad a darllen yn gryf, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddylanwadu ar eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Safonau ysgrifennu dysgwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yw'r gwannaf o'r pedair medr iaith o hyd.

4 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cynradd, mae agweddau cadarnhaol gan ddysgwyr at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd. Fodd bynnag, mae mwynhad dysgwyr wrth ddarllen yn dirywio yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith bechgyn a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

5 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd ac nid oes ganddynt ddigon o reolaeth dros sut neu beth maent yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith a llythrennedd. Mewn rhyw hanner o ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol dysgwyr, fel y gallu i drosglwyddo dysgu blaenorol i gyd-destunau newydd, ac i ddefnyddio strategaethau i gefnogi'u datblygiad eu hunain wrth ddarllen a sillafu, yn parhau yn feysydd i'w datblygu.

### Darpariaeth

6 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn cefnogi lleferydd a chyfathrebu plant yn dda trwy fodelu iaith yn effeithiol. Maent yn darparu ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol sydd yn amgylcheddau dysgu iaith a llythrennedd cyfoethog sy'n trochi dysgwyr yn y gair llafar ac ysgrifenedig.

7 Mae'r prosesau cynllunio datblygedig mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, law yn llaw â defnyddio adnoddau'n ddoeth yn sicrhau bod cysyniadau a medrau iaith yn adeiladu'n gynyddol i gefnogi datblygu iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr yn llwyddiannus. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn ystyried a yw eu cynllunio a'u hymagweddau at ddysgu, er enghraifft, ar gyfer gwella medrau iaith a llythrennedd bechgyn, yn cael eu llywio'n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil i arfer effeithiol.

8 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn mabwysiadu ymagwedd integredig sy’n seiliedig ar destun neu bwnc fel arfer, at gynllunio gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu i helpu dysgwyr gaffael a datblygu iaith. Yn yr arfer orau, mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod datblygu un medr yn ategu datblygu medr arall. Wrth ymateb i ddatblygiadau’r Cwricwlwm i Gymru, mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau difyr go iawn a llawn dychymyg i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Maent yn dylunio cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso’u medrau ar draws y cwricwlwm.

9 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddysgwyr o’r hyn y byddant yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith. Mewn llawer o ysgolion, mae staff yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cryfderau a sut i wella eu galluoedd iaith. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw athrawon yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a datblygu’u medrau iaith a llythrennedd gystal ag y gallent.

10 Mae’r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen, o fannau cychwyn isel yn aml. Maent yn defnyddio profiadau perthnasol i ysgogi chwarae rôl dysgwyr a’u hannog i siarad a chyfranogi mewn sgwrs. Yn aml, lle ceir darpariaeth ragorol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd helaeth o’r gymuned leol i ehangu profiadau dysgwyr a’u cynorthwyo wrth ddysgu iaith.

11 Mae’r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol i addysgu dysgwyr sut i siarad a gwrando, yn benodol. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn cynllunio profiadau dysgu perthnasol sy’n helpu dysgwyr i feddwl yn ofalus ac yn bwyllog ynglŷn â’r mathau o iaith y maent yn eu clywed a’u defnyddio, gan gynnwys wrth siarad yn gyhoeddus neu’n perfformio. Mewn ysgolion llai effeithiol, mae gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy’n cefnogi darllen ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i’w datblygu ar eu pennau’u hunain. Yn yr ysgolion hyn, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd heriol a buddiol priodol i adeiladu ar fedrau gwrando a siarad dysgwyr, a’u hymestyn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

12 Mae’r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn canolbwyntio’n gryf ar ddatblygu medrau cyn-darllen plant, er enghraifft, trwy ganeuon, rhigymau a cherddoriaeth. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i gamau datblygiadol dysgwyr ac maent yn cyflwyno addysgu ffoneg yn rhy gynnar. O ganlyniad, mae dysgwyr nad yw eu medrau iaith a chyfathrebu wedi’u datblygu’n ddigonol yn cael trafferth gwneud y cyswllt rhwng llythrennau a seiniau.

13 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynllunio’n briodol ar gyfer dilyniant mewn datblygiad darllen dysgwyr. Mae ysgolion sy’n datblygu darllen yn effeithiol yn ei addysgu’n ddyddiol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio adnoddau addas yn llwyddiannus i gefnogi’u haddysgu, mewn ffoneg er enghraifft. Lle nad yw dysgwyr yn gwella’u medrau darllen yn ddigon da, y rheswm am hyn yn aml yw nad oes strategaeth ysgol gyfan i wella medrau datgodio dysgwyr, i adeiladu eu gwybodaeth am eirfa, nac i ddatblygu’u ymatebion i’r hyn maent yn ei ddarllen.

14 Mae meithrin hoffter am ddarllen a llenyddiaeth yn flaenoriaeth mewn ysgolion sy'n datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol. Maent yn datblygu strategaethau ysgol gyfan llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser: darllen i ddysgwyr, darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen yn uchel, rhannu nofelau cyflawn gyda dysgwyr, a darparu amser ar gyfer darllen annibynnol yn ddyddiol. Mae eu hathrawon yn eiriolwyr dros ddarllen.

15 Mewn lleiafrif o ysgolion, cyfle cyfyngedig sydd ar gael i ddysgwyr wrando ar oedolion wrth iddynt fodelu arferion darllen effeithiolyng nghyfnod allweddol 2, neu i ymgysylltu â llyfrau ffuglen a ffeithiol mwy heriol. Yn gyffredinol, nid oes digon o athrawon yn darllen llenyddiaeth newydd i blant eu hunain. Nid yw ychydig o ysgolion yn archwilio ystod ddigon eang o strategaethau i gefnogi dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd i gael cyfleoedd darllen ac i annog mwynhad o ddysgu.

16 Mae llawer o ysgolion cynradd wedi gwella agweddau addysgu ar ysgrifennu drwy roi mwy o ffocws ar ddealltwriaeth dysgwyr o ddiben a chynulleidfa, ac ymagweddau cyson at ddatblygu'u medrau. Mae'r ysgolion mwyaf llwyddiannus yn cynnig cyfleoedd cyffrous a pherthnasol i ysgrifennu, yn darparu adborth effeithiol i arwain datblygiad pellach, ac yn addysgu'r medrau craidd sillafu ac adeiladu brawddegau yn benodol.

17 Mae'r addysgu gorau yn galluogi dysgwyr i ddeall confensiynau ffurf a genre, ac ysgrifennu fel proses. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgwyliadau athrawon o ysgrifennu dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl, yn rhy isel. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio'r ystod o fedrau ysgrifennu sydd ganddynt yn barod, ac mae hyn yn arafu'u cynnydd. Yn gyffredinol, mae ansawdd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig a'r disgwyliad i ddysgwyr wirio, cywiro ac ailddrafftio'u gwaith yn parhau yn rhy amrywiol.

18 Mewn ychydig iawn o ysgolion, lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd benodol ar ddysgu iaith. Maent yn ystyried beth yw'r ffordd orau o integreiddio dewis geiriau priodol yn ofalus i addysgu a dysgu mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oes dealltwriaeth ddigon sicr gan staff o bwysigrwydd addysgu gwybodaeth am eirfa i ddysgwyr a'r effaith a gaiff hyn ar eu cynnydd, yn enwedig mewn darllen.

19 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau addas yn briodol i gynllunio cymorth ychwanegol neu arbenigol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ymyriadau yn dda i gynorthwyo dysgwyr o bob oed i wneud cynnydd da. Nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn cynllunio ac yn adolygu rhaglenni cymorth yn ddigon gofalus. O ganlyniad, nid yw dysgwyr â medrau iaith gwan neu anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallent wneud.

20 Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae gweithio cadarn mewn partneriaeth yn helpu llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd da yn eu medrau iaith a llythrennedd. Fel arfer, mae'r berthynas â rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol, ac mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad i wella medrau iaith dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig.

21 Mewn ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf, mae'r cymorth ac arweiniad ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr yn rhagorol. Mae'r ymgysylltiad cadarnhaol rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau yn elfen allweddol o'r rhagoriaeth hon yn aml. Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o ysgolion sy'n canolbwyntio'n ddigon da ar fynd i'r afael â'r ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith plant, fel rhieni, y cartref ac amgylchedd y gymuned. Er gwaetha'r cyllid sydd wedi bod ar gael i fynd i'r afael â hyn, mewn mwyafrif o ysgolion, mae tlodi ac anfantais yn parhau'n rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd sicr.

### Arweinyddiaeth

22 Mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd lle mae safonau iaith a llythrennedd yn uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr, mae arweinwyr yn pennu gweledigaeth glir ac ymagwedd strategol at ddatblygu iaith a llythrennedd disgyblion. Maent yn gwneud penderfyniadau sy'n benderfyniadau cywir ar gyfer eu dysgwyr. Er bod arweinwyr yn sensitif ac yn ystyrgar o amgylchiadau a sefyllfaoedd dysgwyr, nid ydynt yn eu defnyddio i ostwng eu disgwyliadau o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni.

23 Mae strwythurau arwain priodol ar waith gan y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion i gefnogi cydlynu a datblygu'u darpariaeth ar gyfer iaith a llythrennedd. Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n fwyaf llwyddiannus wrth ddatblygu medrau dysgwyr, mae strategaeth gydlynus ar waith, sy'n rhwydd i'w ddeall, ar gyfer gwneud hynny. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn darparu addysgu a dysgu eithriadol sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol, ac yn herio ac yn meithrin datblygiad dysgwyr mwy abl yn llwyddiannus.

24 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae gan yr holl staff fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol, ac yn gallu elwa arni. Yn aml, mae arweinwyr yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd cryf mewn iaith a llythrennedd eu hunain. Maent yn buddsoddi ym medrau a galluoedd eu staff, trwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n datblygu dealltwriaeth ymarferwyr yn llwyddiannus o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr.

25 Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn datblygu prosesau cadarn ar gyfer adolygu effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Mewn ysgolion gwannach, mae arweinwyr yn monitro agweddau generig ar addysgu, ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd nodi anghenion dysgu proffesiynol yn union, fel y gall staff ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr yn well. Mewn ysgolion gwannach, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn arddangos arferion modelu iaith da i ddysgwyr.

26 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd Saesneg. Lle ceir diffygion yn y ddarpariaeth, mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn generig yn aml, ac nid ydynt bob amser wedi'u personoli digon nac yn cydweddu ag anghenion ysgolion unigol.

## Argymhellion

**Dylai lleoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd:**

A1 sicrhau nad yw tlodi ac anfantais yn rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd cadarn

A2 datblygu diwylliant o ddarllen sy'n annog ac yn ennyn brwdfrydedd yr holl ddysgwyr, gan gynnwys bechgyn a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig, i ddarllen er pleser, a darparu cyfleoedd i wrando ar oedolion yn darllen ar goedd

A3 datblygu gwybodaeth dysgwyr am eirfa yn benodol, fel bod hynny'n cynorthwyo i ddatblygu'u medrau siarad, darllen ac ysgrifennu

**Dylai ysgolion cynradd:**

A4 ddatblygu strategaeth glir i gefnogi addysgu darllen yn effeithiol, gan gynnwys mynd i'r afael â medrau datgodio, datblygu geirfa, a medrau darllen

A5 darparu cyfleoedd heriol priodol a pherthnasol i gefnogi datblygiad cynyddol medrau gwrando a siarad dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A6 cefnogi datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr drwy addysgu cystrawennau, atalnodi a sillafu yn benodol, cyfleoedd perthnasol i ysgrifennu ac adborth manwl i arwain gwelliant pellach

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A7 ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion unigol lleoliadau ac ysgolion, i sicrhau bod yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn gwella eu medrau iaith a llythrennedd

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 werthuso defnydd lleoliadau ac ysgolion o gyllid wedi'i dargedu, fel y grant datblygu disgyblion blynyddoedd cynnar a'r grant datblygu disgyblion, er mwyn gwella medrau iaith a llythrennedd disgyblion cymwys

# Caffael yr iaith Gymraeg

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu a darpariaeth ar gyfer medrau

1 Mewn lleoliadau, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn caffael y Gymraeg yn effeithiol.

2 Mae llawer o ddysgwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Gwnânt hynny drwy wrando'n astud ar ymarferwyr sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol iddynt mewn gweithgareddau llafar pwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu at y broses o gaffael a chyfoethogi iaith wrth iddynt efelychu'r iaith yn fwyfwy hyderus ar draws yr ystod oedran.

3 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn rhyngweithio'n dda ag ymarferwyr a'u cyfoedion wrth iddynt ddatblygu'r hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio'r iaith yn gyson drwy ei mewnoli, siarad a'i chymhwyso'n gynyddol hyderus i gyfathrebu'n ddigymell yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol.

4 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth ffonolegol yn fwyfwy hyderus mewn ystod o weithgareddau difyr ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ymarferwyr yn arwain dysgwyr i glywed, adnabod ac ynganu seiniau llythrennau'r wyddor yn gywir. Trwy weithgareddau darllen ar y cyd gydag oedolion a'u cyfoedion, mae dysgwyr yn ailedrych ar, ac yn ymarfer, eu medrau o ran segmentu a chyfuno geiriau sy'n fwy cymhleth. O ganlyniad, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd cadarn yn eu medrau darllen dros amser.

5 Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau deall ac adnabod y cysylltiad rhwng iaith lafar a seiniau ffonolegol, ac maent yn dod yn gyfarwydd â geiriau aml eu defnydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn darllen geiriau anghyfarwydd ac yn ffurfio brawddegau mwyfwy cymhleth. Wrth i ddysgwyr fagu hyder a gwneud cynnydd yn eu medrau darllen, maent yn trafod amrywiaeth ehangach o destunau.

6 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus. Maent hefyd yn darllen testun ac yn cywain gwybodaeth mewn un iaith, ac yn coladu, trafod a chofnodi'r wybodaeth mewn iaith arall, naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg fel arfer. Mae hyn yn datblygu medrau trawsieithu dysgwyr ac yn cefnogi datblygiad eu medrau darllen Cymraeg.

7 Mae llawer o leoliadau ac ysgolion yn meithrin diwylliant o ddarllen drwy strategaeth darllen ysgol-gyfan sydd wedi'i datblygu'n dda. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn darparu ystod ddifyr a symbylol o destunau i ddysgwyr. Yn y darparwyr hyn, gall dysgwyr fanteisio ar ardal ddarllen benodol yn yr ystafell ddosbarth neu lyfrgell yr ysgol, lle maent yn datblygu eu medrau darllen yn annibynnol. Mewn ysgolion llai

effeithiol, nid yw lleiafrif o ymarferwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd digon cyson i ddysgwyr wrando ar bobl eraill yn darllen llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg. O ganlyniad, mae gwybodaeth ychydig o ddysgwyr am destunau ac awduron Cymreig yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn ddigon hyderus i'w trafod.

8 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn hybu medrau ysgrifennu dysgwyr drwy greu cysylltiad amlwg rhwng gwrando a siarad, ac ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ymhellach drwy ysgrifennu brawddegau mwyfwy cymhleth. Maent yn cyfoethogi eu gwaith â geirfa gyfoethog ac yn defnyddio ystod eang o atalnodau yn gywir wrth ysgrifennu gwahanol fathau o destunau. Wrth i fedrau llafar y rhan fwyaf o ddysgwyr ddatblygu, caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau ysgrifennu. Ar hyn o bryd, nid yw'r lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu i'r un safon â'u medrau siarad a darllen. Nid yw ychydig o ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol, nac yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth bresennol i ymestyn eu medrau ysgrifennu ymhellach.

9 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y cwricwlwm. Pan roddir cyfle iddynt wneud hynny, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau llafar yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn gynyddol drwy ddarllen testunau ffuglen a ffeithiol ar ystod ddiddorol o themâu, er enghraifft wrth ddysgu am arwyr o Gymru. Mae llawer o ddysgwyr ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft drwy ddefnyddio ffurf orchmynnol y ferf wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau syml i wneud cebabau ffrwythau yn y cyfnod sylfaen.

10 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg, ac yn deall gwerth a budd datblygu eu medrau Cymraeg. Yn yr arfer orau, mae llawer o ddarparwyr yn achub ar bob cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith mewn modd rhyngweithiol ac ymarferol yn yr ysgol a'r gymuned leol. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn defnyddio ac yn cymhwyso'r iaith yn fedrus mewn amrywiaeth o weithgareddau bwriadus, er enghraifft wrth helpu preswylwyr oedrannus mewn cartref preswyl lleol i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu â'u teuluoedd a'u ffrindiau gan ddefnyddio dyfeisiau digidol.

11 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae dysgwyr y nodir eu bod yn ddifreintiedig neu fod ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth gaffael y Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, cânt gymorth priodol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni eu targedau iaith personol. Mae ymarferwyr yn cynllunio rhaglenni cymorth manwl sy'n bodloni anghenion dysgu cyffredinol bron pob dysgwr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes cefnogaeth gyson i grwpiau o ddysgwyr sydd ag anghenion iaith penodol, fel oedi cyffredinol mewn datblygu iaith a dyslecsia, drwy gyfrwng y Gymraeg, nac adnoddau addas ar gael i ymarferwyr eu defnyddio wrth gefnogi pob grŵp o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr AAA.

12 Mae llawer o ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ieithyddol cyfoethog sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb dysgwyr yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu medrau iaith dysgwyr yn gynyddol wrth iddynt symud drwy'r lleoliad a'r ysgol. Nid yw ychydig o ymarferwyr yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod lawn y medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn cyd-destunau ystyrlon a diddorol ar draws y cwricwlwm.

13 Mewn llawer o ddarparwyr, mae ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn y Gymraeg drwy fodelu iaith yn dda a darparu amgylchedd dysgu sydd â chyfoeth o eirfa a chystrawen Gymraeg. Mae'r lleoliadau a'r ysgolion hyn yn ymfalchïo mewn bod yn gymunedau sydd ag ethos Cymraeg. Dros amser, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn ehangu ystod yr eirfa a'r patrymau cystrawennol y mae dysgwyr yn eu defnyddio. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, nid yw ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn ddigon effeithiol yn y Gymraeg nac yn sicrhau bod datblygiadau mewn un medr, er enghraifft siarad, yn cefnogi ac yn ategu datblygiad mewn un arall, fel ysgrifennu.

14 Mae darparwyr sy'n rhagori mewn datblygu caffaeliad iaith dysgwyr yn cynnig cefnogaeth ddefnyddiol i grwpiau o ddysgwyr. Maent yn trefnu gweithgareddau sy'n gyfoeth o iaith i fodloni anghenion ieithyddol dysgwyr o bob cefndir ieithyddol. Yn gyffredinol, ychydig iawn o ysgolion sy'n targedu datblygu medrau dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'r rhai y nodwyd eu bod yn fwy abl.

15 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae'r addysgu yn effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu geirfa dysgwyr yn fedrus. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth ac yn fodd cyson o sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso iaith lafar ac ysgrifenedig fwyfwy aeddfed ac estynedig mewn gwersi Cymraeg ac ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

16 Mae medrau'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn addysgu iaith a llythrennedd yn gryfder. Maent yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol newydd yn gelfydd mewn gweithgareddau cyfoethog sydd wedi'u cynllunio'n dda. Nid yw medrau cyfathrebu ychydig o ymarferwyr yn ddigon cadarn i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir.

17 Yn gyffredinol, mae llawer o ymarferwyr yn holi, monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn effeithiol, ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion datblygiadol y rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau olrhain lleiafrif o ysgolion yn sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg dros amser.

### Arweinyddiaeth

18 Ym mwyafrif y lleoliadau a'r ysgolion lle mae safonau iaith a llythrennedd yn uchel i bob dysgwr, mae arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir a dull strategol o ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg dysgwyr mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddwysau a chefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ymfalchïo yn y Gymraeg a'i defnyddio'n naturiol ac yn ddigymell fel rhan o'u haddysg a'u bywydau bob dydd.

19 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o

gydweithio lle gall pob aelod o staff fanteisio ac elwa ar fethodoleg drochi gyfunol yr ysgol o gaffael iaith. Maent yn buddsoddi ym medrau ac arbenigedd ymarferwyr drwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr.

20 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu gweithdrefnau cadarn i werthuso effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Yn yr ysgolion lle mae datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgu iaith yn llai datblygedig, er bod arweinwyr yn monitro agweddau cyffredinol ar addysgu, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau ar addysgu iaith mewn meysydd a phynciau penodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr yn fanwl gywir er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain i sicrhau bod staff yn fwy abl i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn fodelau iaith da i ddysgwyr o ran iaith bob tro.

### Argymhellion

**Dylai lleoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd:**

A1 gynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant a pharhad mewn datblygu medrau dysgwyr o bob cefndir ieithyddol wrth iddynt gaffael y Gymraeg

A2 darparu gweithgareddau gwrando a siarad rheolaidd i ddatblygu geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr, a'u hannog i gymhwyso'r medrau newydd hyn mewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol

A3 olrhain cynnydd, datblygiad geirfa a chaffaeliad iaith grwpiau penodol o ddysgwyr yn drylwyr, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl

**Dylai ysgolion cynradd:**

A4 gynnig cyfleoedd i ddysgwyr wrando ar, darllen a gwerthfawrogi llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg gan awduron o Gymru, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

A5 sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A6 ddarparu hyfforddiant i ddwysau dealltwriaeth ymarferwyr o'r modd y mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, ac o fethodoleg effeithiol o ran trochi iaith

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar drochi iaith er mwyn cefnogi addysgu a dysgu wrth gaffael y Gymraeg

# Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol – gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r pandemig wedi achosi newid amlwg mewn addysgu a dysgu yn y sectorau ôl-16. Mae darparwyr a'u staff ar draws yr holl sectorau ôl-16 wedi dangos ymagwedd gadarn at ddysgwyr a'u lles.

2 Er y bu gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol ers dechrau'r pandemig, mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar-lein yn parhau i amrywio, ar y cyfan.

3 Mae darparwyr a'u staff ar draws pob sector wedi dangos llawer o ymroddiad i ddatblygu eu medrau mewn addysgu ac asesu o bell a chyfunol.

4 Roedd y darparwyr hynny a oedd wedi dechrau cyflwyno elfen o addysgu a dysgu o bell neu ddysgu cyfunol yn eu cynnig cwricwlwm cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 mewn sefyllfa gryfach i gyflwyno darpariaeth arall ar-lein yn gyflym.

5 Mae cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi achosi newid yn y modd y mae darparwyr a staff yn sicrhau ansawdd cyrsiau ar-lein ac yn rhannu arfer. Mae'r defnydd gwell o dechnoleg yn galluogi cyfleoedd ar gyfer mwy o fyfyrio unigol, a rhannu arfer arloesol ymhlith staff ar draws y darparwr.

6 Roedd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned dan anfantais o ran cyflwyno dysgu oedolion ar-lein, oherwydd gan amlaf, nid oes ganddynt dimau cymorth dysgu TG canolog, amgylcheddau dysgu rhithwir na mynediad at adnoddau ar-lein a rennir i gefnogi cynllunio a chyflwyno i ddysgwyr, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sydd dan anfantais.

7 Mae wedi bod yn anos symud rhai cyrsiau a rhaglenni i ddysgu o bell na chyrsiau neu raglenni eraill. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am ddysgwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith sy'n dilyn prentisiaethau a chyrsiau technegol, gan fod angen iddynt ymarfer ag offer arbenigol ac mewn cyfleusterau arbenigol, yn ogystal â gwneud asesiadau dan oruchwyliaeth i arddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol.

8 Pan fydd staff yn gweithio mewn timau i ddatblygu cyrsiau addysgu a dysgu o bell a chyfunol, gallant rannu cyfrifoldebau, methodoleg addysgu, syniadau ac adnoddau. Mae hyn yn arwain yn gyffredinol at gyrsiau ar-lein gyda mwy o gydlyniaeth a chydbwysedd da o weithgareddau cydamserol ac anghydamserol pwrpasol sy'n hyrwyddo dysgu.

9 Mae darparwyr wedi nodi manteision annisgwyl yn deillio o roi cyrsiau ar-lein. Er enghraifft, mae'r hyblygrwydd gwell yn denu ystod ehangach o ddysgwyr, gan eu bod yn gallu cael mynediad at ddysgu yn haws.

10 Yn y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned, mae darparwyr wedi addasu eu cynnig cwricwlwm yn gyflym ac yn briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd wedi colli cyflogaeth ac angen ailsgilio i gael mynediad at y farchnad swyddi.

11 Er gwaethaf eu hymdrechion i ddatblygu dulliau dysgu ac asesu o bell a chyfunol, mae darparwyr yn ystyried bod gormod o achosion pan na fu sefydliadau dyfarnu yn ddigon hyblyg o ran addasu eu gofynion. Mae hyn wedi golygu bod gormod o ddysgwyr yn aros i gwblhau eu cymwysterau a derbyn eu dyfarniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi digalonni dysgwyr, gan olygu nad ydynt wedi gallu gwneud cynnydd yn y swyddi maen nhw ynddynt, neu'n methu gwneud cais am swyddi yn gysylltiedig â'u cymwysterau.

### Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:**

A1 Sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol i sicrhau bod yr holl gyrsiau neu raglenni yn bodloni safon ansawdd ofynnol er mwyn lleihau'r amrywioldeb mewn darpariaeth

A2 Sicrhau bod arweinwyr ac athrawon yn gallu elwa ar ddysgu proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad o ran sut i gynllunio addysgu a dysgu effeithiol o bell a chyfunol, yn ogystal â datblygu medrau addysgegol ac asesu athrawon ymhellach.

A3 Rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg ac arfer arloesol o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru, a thu hwnt

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 Barhau i gefnogi'r sector ag arweiniad i alluogi darparwyr i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol o ansawdd da, yn enwedig o ran cefnogi'r dychwelyd i addysgu a hyfforddiant uniongyrchol, ac asesu medrau galwedigaethol a thechnegol ymarferol

A5 Comisiynu dysgu proffesiynol ar gyfer y sector ôl-16, sy'n rhad ac am ddim i ddarparwyr ac yn eu helpu i ddatblygu arbenigedd penodol mewn dylunio, addysgu, hyfforddiant a dysgu o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell ar gyfer eu sector i leihau amrywioldeb yn ansawdd y ddarpariaeth

A6 Galluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a dysgwyr i gael mynediad at blatfform digidol cenedlaethol canolog i ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn haws

A8 Annog a chefnogi darparwyr i rannu arfer sy'n dod i'r amlwg mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru

## Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr – gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19

### Prif ganfyddiadau

1 Mae effaith cyfnodau clo a'r pandemig ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn cael ei dylanwadu gan eu hamgylchiadau personol. Mae ffactorau cyfrannol allweddol a nodwyd yn ein trafodaethau â darparwyr yn cynnwys profedigaeth, ynysigrwydd cymdeithasol, ansicrwydd ynghylch trefniadau asesu cymwysterau, pryderon am ragolygon yn y dyfodol, pwysau gweithio oriau hir mewn galwedigaethau ar y rheng flaen, fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac effaith cael eu rhoi ar ffyrlo neu eu diswyddo.

2 Mae'r newid i ddysgu o bell a dysgu cyfunol wedi bod yn haws i rai dysgwyr na dysgwyr eraill. Yn gyffredinol, roedd yn haws i ddysgwyr a oedd eisoes yn gallu manteisio'n rhwydd ar dechnoleg a chysylltedd band eang dibynadwy addasu i ffyrdd newydd o weithio. Yn aml, mae dysgwyr difreintiedig, fel gofalwyr ifanc a llawer o ddysgwyr hyfforddeiaethau, wedi wynebu pwysau ychwanegol sylweddol wrth geisio cadw i fyny â'u dysgu o ystyried eu hamgylchiadau personol anodd.

3 Ers y cyfnod clo cyntaf a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, mae pob darparwr wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffyrdd y maent yn cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr. Er y bu cyfnodau byr pan mae lleiafrif o ddarparwyr wedi dychwelyd i rai mathau o gymorth wyneb-yn-wyneb oherwydd llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, mae'r rhan fwyaf o gymorth wedi parhau i gael ei gynnig o bell. Dros gyfnod llawn y pandemig, mae bron pob darparwr wedi sicrhau mai lles dysgwyr a staff oedd y brif flaenoriaeth, ac wedi gweithio'n galed i gynnal parhad o ran cymorth, yn ogystal â pharhad addysgu, dysgu ac asesu.

4 Gellid disgrifio'r hyn sydd wedi esblygu hyd yn hyn yn ystod y pandemig yn fodel 'cymorth cyfunol', lle caiff cymorth ei roi mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r ffyrdd hyn yn cynnwys cymorth o bell drwy alwadau ffôn neu negeseuon testun, galwadau fideo ar-lein ac, mewn ychydig o achosion, cyfleusterau sgwrsio ar-lein, yn ogystal â chymorth wyneb-yn-wyneb mwy traddodiadol. Yn ystod cyfnodau pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio, parhaodd bron pob un o'r darparwyr i gynnig y rhan fwyaf o'u cymorth o bell, yn hytrach nag ailgydio'n llawn â dulliau a ddefnyddiwyd cyn y pandemig, oherwydd pryderon parhaus yn ymwneud â throsglwyddo'r feirws.

5 Mae effeithiolrwydd cyffredinol y cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng ac, mewn llawer o achosion, o fewn colegau addysgu bellach, consortia dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr wedi cynnal neu gyflwyno dulliau brysbennu gofalus a thra ystyriol i adnabod a blaenoriaethu dysgwyr sydd naill ai mewn perygl neu sydd angen y cymorth fwyaf. Lle mae cymorth yn llai effeithiol, nid yw darparwyr yn nodi ac yn cynnal cysylltiad rheolaidd â'r rhai sydd â'r perygl mwyaf o ymddieithrio rhag dysgu neu brofi anawsterau â'u hiechyd meddwl a'u lles

emosiynol. Caiff cymorth ei ddarparu ar sail 'y cyntaf i'r felin', gan mwyaf, ac mae dysgwyr yn aml yn wynebu rhestrau aros hir am gymorth arbenigol, fel darpariaeth cwnsela fewnol neu allanol.

6 Caiff cymorth ei ddarparu'n fwy effeithlon ac effeithiol pan fydd darparwyr yn cydweithio'n agos â phartneriaid mewnol ac allanol, ac asiantaethau arbenigol. Mae trefniadau cymorth amlasiantaeth yn fwyaf effeithiol pan fydd dysgwyr yn cael un man cyswllt. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i'r dysgwyr hynny sy'n astudio â darparwyr partner ac isgontractwyr fanteisio ar gymorth arbenigol ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol yn cael eu gwneud yn ddigon clir bob tro mewn gwybodaeth sydd ar gael gan ddarparwyr arweiniol.

7 Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol, targedig i ddysgwyr y nodwyd bod angen cymorth penodol arnynt â'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, mae darparwyr hefyd yn hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol, er enghraifft drwy gynnal wythnosau lles a chynnig ystod o weithgareddau sy'n ymwneud â lles. Mae angen i bob darparwr ganolbwyntio mwy ar ddatblygu gwydnwch dysgwyr i oresgyn heriau a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith ar ôl y pandemig.

8 Yn rhan o'u hymdrechion i annog a helpu dysgwyr â hunanofal a hunanddisgyblaeth er mwyn cynnal a gwella lles, mae llawer o ddarparwyr wedi sicrhau bod ystod eang o adnoddau ar gael i ddysgwyr a staff. Caiff llawer o'r adnoddau hyn eu darparu ar-lein drwy byrth dysgwyr a staff. Yn yr achosion gorau, caiff adnoddau eu dewis yn ofalus a'u hadolygu, yn hytrach nag ychwanegu at dudalennau gwe ar-lein yn unig. Mae hyn yn osgoi gorlwytho defnyddwyr â gormod o wybodaeth y mae'n anodd llywio drwyddi.

9 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi codi ymwybyddiaeth staff o faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles emosiynol. Mae darparwyr yn crybwyll bod hyn wedi arwain at roi staff mewn sefyllfa well i adnabod a chefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth, yn ogystal â helpu'r staff i gynnal eu lles emosiynol eu hunain. Mae llawer o ddarparwyr, yn enwedig mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, wedi buddsoddi mewn rolau cymorth ychwanegol ar y rheng flaen hefyd, fel swyddogion lles, hyfforddwyr gwydnwch a dysgu, staff lles gweithredol a swyddogion ymgysylltu â dysgwyr yn rhan o'u darpariaeth cefnogi dysgwyr. Hefyd, bu twf sylweddol mewn hyfforddi a defnyddio swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, yn enwedig mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith.

10 Mae darparwyr wedi adrodd am ddarlun cymysg o ran nifer yr adroddiadau a'r atgyfeiriadau diogelu ers dechrau'r pandemig. Mae mwyafrif y darparwyr wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd wedi ceisio cymorth ar gyfer materion cymhleth, fel hunan-niweidio a meddyliau a theimladau hunanladdol. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi cryfhau eu dulliau o hybu a sicrhau diogelwch ar-lein cyhyd ag y bo modd, o fewn y cyd-destun heriol bod bron i bob dysgwr yn treulio mwy o amser ar-lein gartref, yn aml drwy eu hoffer eu hunain a rhwydweithiau Wi-Fi y cartref.

11 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi crybwyll y bu ymchwydd yn y galw am wasanaethau cwnsela i ddysgwyr yn ystod y pandemig. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu o bell. Er bod lleiafrif y staff cwnsela wedi ymgymryd â hyfforddiant penodol erbyn hyn ar sut i ddarparu cwnsela o bell yn

effeithiol, nid yw hyn yn digwydd bob tro. Yn yr un modd, er bod bron pob aelod staff cwnsela yn cael goruchwyliaeth glinigol reolaidd i gefnogi eu datblygiad a'u lles meddyliol eu hunain, nid oes cymorth tebyg ar gael i lawer o staff mewn rolau cymorth rheng flaen eraill, a all fod yn ymdrin ag achosion cymhleth a thrallodus fel rhan o'u gwaith.

12 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi manteisio ar gyllid ychwanegol i helpu dysgwyr â gofynion technoleg ar gyfer astudio gartref a chefnogaeth o bell. Nid yw ychydig o ddarparwyr yn gwneud defnydd digonol o gategorïau eraill o gyllid cymorth a all helpu eu dysgwyr i fanteisio ar fathau eraill o gymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

13 Er bod llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi creu heriau ychwanegol i ddysgwyr a darparwyr, mae llawer o ddarparwyr hefyd yn cydnabod y gall yr addasiadau i'r ddarpariaeth cymorth, a'r dulliau a fu'n angenrheidiol oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo, gyflwyno cyfleoedd i wella yn y tymor hwy. Er enghraifft, gallai cynnig mwy o ddewis i ddysgwyr o ran sut gallant fanteisio ar gymorth yn y dyfodol wella hygyrchedd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol.

## Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:**

A1 Dargedu adnoddau i hybu iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol yn ofalus er mwyn osgoi gorlwytho dysgwyr a staff â gormod o wybodaeth

A2 Nodi'n ofalus y dysgwyr hynny sydd â'r risg fwyaf o ymddieithrio rhag dysgu neu gael profiad o broblemau iechyd meddwl a lles emosiynol, a monitro eu lles yn rheolaidd

A3 Blaenoriaethu darparu cymorth yn ôl yr angen i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr y mae angen cymorth brys arnynt â'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol yn cael cymorth cyn gynted ag y bo modd

A4 Cydweithio mor agos ag y bodd modd ag asiantaethau allanol i sicrhau bod cymorth cyffredinol ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol mor ddi-dor ag y bo modd a lleihau, neu osgoi yn ddelfrydol, yr angen am nifer o fannau cyswllt

A5 Ei gwneud yn glir sut y gall pob dysgwr fanteisio ar gymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles meddyliol, gan gynnwys y rhai sy'n astudio ag isgontractwyr neu ddarparwyr partner

A6 Sicrhau bod yr holl staff cwnsela, ac aelodau staff eraill mewn rolau tebyg, yn cael goruchwyliaeth neu fentora priodol, ac yn ymgymryd â dysgu proffesiynol penodol ar sut i ddarparu cymorth o bell yn effeithiol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 Sicrhau y caiff deilliannau prosiectau iechyd meddwl a ariennir gan Lywodraeth Cymru eu gwerthuso'n llawn, a rhannu'r canfyddiadau ar draws pob sector ôl-16